

Y COFIADUR

Rhif 77

Hydref 2026

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y COFIADUR

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

Rhif 77

Hydref 2026

Argraffwyd dros y Gymdeithas gan Wasg Serol, Castell-nedd

Cynnwys

Swyddogion Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru	3
Rhagair	5
Annibynia yn ei Grym: Dr Thomas Rees, Abertawe (1815–85)	7
Helynt Eglwys Rydd y Cymry	17
Seiat Llanberis	35
Bywyd a Diwinyddiaeth Dietrich Bonhoeffer	43

Swyddogion Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

<i>Llywydd:</i>	Miss Joan M. Thomas, Caerfyrddin
<i>Ysgrifennydd:</i>	Parchg Ddr Geraint Tudur, Bangor
<i>Trysorydd:</i>	Mr Dafydd Roberts, Trefor
<i>Swyddog Hyrwyddo:</i>	Mr Rhodri Darcy, Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ.

Golygyddion *Y Cofiadur*: Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

© 2026 y cyfranwyr

Rhagair

Mae'n hyfryd cael y cyfle hwn i gyflwyno rhifyn eleni o'r *Cofiadur* i chi. Yn y cyhoeddiad hwn ceir pedair erthygl amrywiol a baratowyd naill ai ar gyfer eu traddodi yn un o gyfarfodydd yr Undeb, neu yn arbennig ar gyfer y rhifyn hwn.

Anerchiad a gyflwynwyd yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Abertawe ddiwedd mis Mehefin eleni yw erthygl yr Athro Prys Morgan yn rhoi inni beth o hanes y Dr Thomas Rees, Abertawe, un o benseiri Undeb yr Annibynwyr ond gŵr sydd efallai wedi mynd yn angof erbyn hyn.

Y Parchg Ddr Geraint Tudur a draddododd Ddarlith Goffa Dr Pennar Davies a Dr R Tudur Jones eleni, a hynny yn ystod encil y gweinidogion a gynhaliwyd yn Lerpwl. Eleni, am y tro cyntaf roedd rhai o'r sesiynau ar agor i'r rheini nad oeddynt yn weinidogion. Yn y ddarlith hon cawn hanes helynt Eglwys Rydd y Cymry yn Lerpwl, gyda sylw arbennig i'r gweinidog, y Parchg William Owen Jones.

Rhydd y Parchg John Pritchard ei atgofion personol am genhadaeth arbennig a ddechreuodd yn ystod ail hanner y 1970au gan Gristnogion ifainc Cymraeg yng nghylch Llanberis. Dyma'r adeg y sefydlwyd yr hyn a alwyd yn 'Seiat Llanberis'.

Darlith Goffa Dr Pennar Davies a Dr R Tudur Jones a draddodwyd yn ystod encil y gweinidogion yn Aberystwyth fis Tachwedd llynedd yw'r un gan Gwilym Tudur, ac ynddi mae'n talu teyrnged i'r diwinydd o'r Almaen, Dietrich Bonhoeffer. Dyma'r diwinydd a ddiwyddiwyd ar 9 Ebrill 1945 am wrthwynebu Hitler a'i gyfundrefn. Honna'r darlithydd fod neges berthnasol gan Bonhoeffer i eglwysi Cymru heddiw fel yr oedd i'r Almaen gynt.

Diolch i bob un a gyfrannodd i'r gyfrol gyfoethog hon, a diolch hefyd i Margaret Hughes a Rhodri Darcy o Dŷ John Penri am eu gwaith yn paratoi'r cyhoeddiad gorffenedig. Gan obeithio y mwynhewch chi ddarllen y cyfraniadau gwerthfawr hyn.

Joan Thomas, Caerfyrddin
Hydref 2026

Annibynia yn ei Grym: Dr Thomas Rees, Abertawe (1815–85)

*Darlith a draddodwyd yng nghyfarfodydd blynyddol
Undeb yr Annibynwyr, Abertawe, 24 Mehefin 2026*

Yr Athro Prys Morgan

Yn amser Thomas Rees, roedd y gair Abertawe yn cael ei gyplysu ar unwaith gyda Thomas Rees, fel mae'r enw Pantycelyn yn mynd gyda Williams neu y Bala gyda Michael D. Jones. I lawer o werin bobol Cymru Dr Thomas Rees oedd dinesydd enwocaf Abertawe. Pan fu farw yn 70 oed yn 1885, ei angladd oedd y mwyaf a welwyd yma erioed. Cafwyd gorymdaith hirfaith o'r mans yn Calvert Terrace, wedyn o'r gwasanaeth yng nghapel Walter Road (gyda miwsig arbennig gan Joseph Parry), a'r maer a'r cyngor yn arwain, aelodau seneddol, pwysigion enwadol o bob cwr o Loegr a Chymru, y siopau ar gau, tai a siopau wedi gorchuddio gyda *crepe* du. Roedd aelodau'r orymdaith yn canu emynau yr holl ffordd i fynwent Bethel, Sgeti, a blaen yr orymdaith yn cyrraedd Sgeti pan oedd ei chynffon yn dechrau ar ei phererindod yn Walter Road. Doedd hyn ddim yn syndod i neb: pan fu ei wraig farw yn sydyn yn 1876, bu'n rhaid galw Dr Rees adref o daith bregethu yn America, a phan gyrhaeddodd orsaf High Street, roedd y strydoedd rhwng yr orsaf a Calvert Terrace yn ddu gan dorf enfawr o edmygwyr yn cydymdeimlo gyda'r gwron. Roedd yn amlwg yn gawr y pulpud, pan oedd y Cymry'n eilunaddoli pregethwyr.

Ond roedd Rees yn llawer mwy na chawr yn y pulpud, roedd yn bwyllgorwr diwyd, yn un o benseiri Undeb yr Annibynwyr, yn Llywydd yr Undeb ddwywaith, ac yn 1885 roedd ar fin dod yn llywydd y Congregational Union. Roedd yn awdur toreithiog yn y wasg Gymraeg a Saesneg, yn awdur nifer o lyfrau, awdur cyfrol swmpus ar hanes Anghyddfurfiaeth yng Nghymru, ac yn gyd-awdur pedair cyfrol drwchus ar eglwysi Annibynnol Cymru. Roedd yn destun yn 1888 i un o gofiannau

mwyaf diddorol a hynod ddarllenadwy Oes Victoria, a sgrifennwyd gan ei gyfaill mynwesol John Thomas, Lerpwl (brawd i dad-cu Saunders Lewis). Cofiant eithaf beirniadol, a disebon ydyw. Er hyn mae Rees wedi mynd yn llwyr i'r cysgodion. Does fawr ddim o gyfeiriadau ato hyd yn oed yng nghyfrolau safonol yr Athro R. Tudur Jones am Annibynwyr Cymru ac am Yr Undeb. Pan ddes i gyntaf i fyw yn Abertawe yn 1961 roedd ambell gyfaill yn cofio am eu cyndadau yn clywed Rees yn pregethu, a'r peth cofiadwy oedd bod Rees yn enwog am fynd at gyfoethogion o Annibynwyr yn Lloegr i gael arian i godi capeli Annibynwyr Saesneg yng Nghymru, miliwnyddion fel y brodyr Wills, Bryste, a oedd yn enwog am eu ffatrioedd tybaco. Byddai Dr Rees yn sefyll ar ganol ei bregeth i gael *commercial break*, ac yn annog y gynulleidfa, 'Cofiwch, os ych chi fel fi yn smocwyr trwm, cofiwch smoco tybaco Wills!'

Wel, pwy oedd Dr Rees, a sut y llithrodd mor llwyr i ebargofiant, a sut mae mesur ei gyfraniad i Annibyniaeth Cymru? Rwyf am dynnu eich sylw chi ato heddiw, am fy mod yn ei ystyried yn un o Gymry pwysicaf Oes Victoria, ac nad yw'n haeddu cael ei anghofio.

Ganed Thomas Rees yn 1815 yn Llanfynydd, Sir Gaerfyrddin. Crefftwyr cefn gwlad oedd y teulu, ond dyma'i dad yn mynd i Ferthyr i werthu sgidiau ac yn diflannu o'r stori, felly ei fam oedd yn ei godi, a hynny ym mhlwyf cyfagos Llangathen. Roedd hi o hen deulu o grefftwyr galluog yn gwneud pethau o wellt fel rhaffau a chychod gwenyn. Roeddynt yn aelodau o hen achos enwog Capel Isaac. Roedd ei fam-gu yn tueddu at Arminiaeth, a hynny'n brawf bod merched yn gallu mynegi eu barn fel unigolion. Roedd Morgan Morgan, brawd y fam-gu, yn grydd, ac yn derbyn copïau o *Seren Gomer*, felly roedd cryn drafod ar faterion y dydd ar yr aelwyd. Ystyrid Thomas yn blentyn nodedig am ei allu i wneud 'perllannau' i werthu i gardotwyr, *peepshows* ar hambwrdd dan orchudd, modelau hudolus o goed o dinsel aur ac arian, a ffrwythau o gwyr selio. Ffermwr caredig o gymydog a welodd ddawn y bachgen, a gwneud y gymwynas sylfaenol o dalu am chwarter o addysg i Thomas, ond ef ei hun a fynnodd ddysgu siarad Saesneg gan sipsiwn oedd yn pasio. Daeth yn enwog ei ffraethineb, trwy sgrifennu penillion gwawd ar hyd y fro, a hynny pan nad oedd fawr fwy na phlentyn.

Ond daeth y bachgen yn 1828 yn 13 oed dan ddylanwad Diwygiad 1828. Erbyn cyrraedd ei 15 oed roedd Thomas yn cyhoeddi marwnadau i grefyddwyr. Erbyn 1832 roedd yn mynd o gwmpas gyda bechgyn ifainc i bregethu. Yn 1833 cafodd ei dderbyn fel prentis pregethwr i David Rees Capel Als, Llanelli, a dod yn adnabyddus i lawer o bregethwyr o Annibynwyr. Sylwai llawer ar ei hoffter o smygu. Sonnir bod Michael D. Jones yn ei geryddu am y fath arfer afiach, a Williams o'r Wern yn awgrymu wrtho na ddylasai llencyn ifanc ddangos i gapelwyr ei fod yn ddigon cefnog i fforddio tybaco, a hynny yn rhoi'r argraff nad oedd eisiau rhoi llawer o daliad iddo am bregethu. Ond erbyn 1834 roedd David Rees, Capel Als wedi gwahodd Thomas i fynd o gwmpas gydag ef ar daith bregethu. Dyna beth oedd gwir gefnogaeth ac anrhydedd .

Yn 1835, fodd bynnag, daeth newid byd. Cafodd ei wahodd gan berthnasau i fynd i Aberdâr, ac i fyd y gweithiau fel cymaint o'i gyfoeswyr, ac yn y trefi a'r pentrefi diwydiannol y byddai am weddill ei oes. Er ei fod yn ddyn mawr a chryf o gorff, ac yn llawn egni anarferol, roedd gweithio fel glöwr yn gas ganddo. Ymhen blwyddyn, yn 1838, aeth i gadw ysgol fach yn Craig-y-bargod ar ffiniau Gwent, ac yna cael ei ddewis i fod yn weinidog eglwys fach o ddeuddeg o aelodau, am ddeg swllt y mis. Roedd wrth ei fodd gyda holl ferw trefi Morgannwg a Gwent, ac yn cael gwersi gan weinidog yng Nghasnewydd i wella ei Saesneg, a dysgu Lladin a Groeg yn ogystal. Daeth i adnabod llawer o hen deuluoedd ffermwrol y Blaenau, ac yn eu plith Williamsiaid Pantffawyddog, ym Medwellty, a chwympo mewn cariad â'u merch, Jane. Bu priodas rhyngddynt ym mis Awst 1838, a'r Williamsiaid yn gofyn i'r ddeuddyn ifanc fynd i gadw siop ar eu rhan yn mhentre Pont Aberbargod. Roedd Thomas a'i wraig yn gwbl ddibrofiad, a diniwed wrth ddelio gyda dyledion cwsmeriaid a'u defnydd o 'hen gownt'. Roedd Thomas ei hun yn beio yn anad neb y Siartwyr oedd yn frith yn yr ardal a oedd yn darddle i Wrthryfel y Siartwyr yng Nghasnewydd yn 1839. Dywedodd Thomas fod y Siartwyr yn honni nad oedd dim angen i dlodion y werin dalu biliau i'r dosbarth canol o siopwyr. Yn fuan aeth yr hwch drwy'r siop, a landiodd Thomas yn y carchar yng Nghaerdydd fel methdalwr. Talwyd y dyledion gan rieni Jane, daeth Thomas o'r carchar, a chael gwaith eto fel

pregethwr i eglwys leol. Ond byth wedyn roedd yn gas ganddo ddynion y Chwyldro, a daeth yn gredwr mawr mewn Rhyddfrydiaeth a diwygio trefnus trwy'r Senedd.

Yn 1842 cafodd wahoddiad i helpu David Rees Capel Als, Llanelli, fel gweinidog Siloah, y capel gorlif oedd yn derbyn yr aelodau na allent gael sedd tu fewn i Capel Als. Dyma pryd y dechreuodd Thomas sgrifennu yn rheolaidd i bapur David Rees, sef *Y Diwygiwr*. Mae'n amlwg nad oedd Thomas yn ystyried Merched y Beca yn y cyfnod rhwng 1839 a 1843 yn derfysgwyr peryglus fel y Siartwyr, a'i hen gyfaill David Rees yn sgrifennu'n gryf o blaid y Beca. Roedd Thomas erbyn hyn wedi cael amser i siarad am ei brofiad o eglwysi ffiniau Gwent, lle'r oedd mewnlifiad aruthrol o Saeson wedi dod i Gymru. Poenai y byddai gweithwyr o Saeson yn mynd i'r Eglwys Wladol, oni bai y codid capeli Saesneg iddynt, yr hyn a alwodd yr 'English Cause'. Hefyd poenai'n ddwys am broblemau eglwysi anhrefnus yr Annibynwyr, ac yn gwingo o achos yr ensyniad 'Annibyniaeth yr un peth ag Annibendod'. Teimlai'n gryf bod angen cael gwell trefn ar bawb, i ddelio gyda chapeli sblit, roedd angen i gael cronfeydd i roi pensiwn neu ofal i bregethwyr oedd yn ymddeol neu yn gleifion, neu gronfeydd i'w gweddwon a'u plant, a gallai Thomas weld bod y Congregational Union yn Lloegr wedi dechrau ar y cyfundrefnu yma ers ei sefydlu yn 1833.

Roedd diwylliant yr ymneilltuwyr yn newid trwy gydol hanner cyntaf y 19eg ganrif, yn golygu bod llawer o bynciau moesol yn gofyn iddynt drafod pethau gyda'i gilydd mewn ffyrdd newydd. Dyna'r genhadaeth dramor, rhoi hawliau sifil i'r pabyddion, dirwest, dileu caethwasiaeth, datgysylltu'r Eglwys Wladol, a phwnc llosg anodd ynghylch derbyn grantiau oddi wrth y llywodraeth i sefydlu ysgolion, a sut i ymateb i ymosodiadau comisiynwyr y llywodraeth yn 1847 ar gymdeithas yng Nghymru yn yr hyn a elwid 'Brad y Llyfrau Gleision'. Yn y tymor byr y cyfan y gallai Thomas a phregethwyr tebyg iddo ei wneud oedd cael yr eglwysi i ffurfio undebau sirol i gyfarfod bob chwarter, fel y gwnaed yn achos Sir Gaerfyrddin o 1846 ymlaen, ac roedd Thomas ei hun yn egniol yn pregethu i godi arian i dalu dyledion codi capeli. Roedd capeli yn agor ar raddfa o un bob pythefnos ar draws enwadau Cymru. Roedd amllder y problemau hyn yn gyrru'r eglwysi i gyd

i drafod mewn cyrddau neu bwyllgorau, a hynny'n codi'r syniad ym mhen rhai Annibynwyr y dylid rywbyrd dynnu'r undebau sirol at ei gilydd mewn un corff. Roedd y Llyfrau Gleision yn 1847 wedi trin yr hen ymneilltuwyr a'r Methodistiaid gyda'i gilydd fel rhan o 'broblem Cymru'. Hynny yw, roedd yr holl fudiadau efengylaidd yn cadw Cymru yn rhy Gymreigaidd, a'i chau i ffwrdd o gynnydd y byd Prydeinig. Roedd y Cyfrifiad Crefyddol yn 1851 am y tro cyntaf wedi dangos bod mwyafrif llethol addolwyr Cymru yn mynd i gapeli, a lleiafrif bach yn unig yn mynychu'r Eglwys Wladol. Roedd dyfodiad y post ceiniog yn 1840, a dileu trethi trwm ar newyddiaduron yn y 1850au, ac ymlediad y rheilffyrdd wedi 1850, a phethau tebyg, i gyd yn ei gwneud yn haws i grefyddwyr gynnal cyfarfodydd ar raddfa eang, i bwyllgora a chynadledda, ac yn gwneud yr hen unedau lleol yn llai ynysig. Doedd hi ddim efallai yn syndod i weld sasiynau'r Methodistiaid yn dod at ei gilydd yn 1866 i ffurfio un eglwys, ond yn fwy o syndod gweld fod Bedyddwyr Cymru yn ffurfio undeb yn 1866.

Elfen newydd ym mywyd Thomas Rees wrth iddo deithio, oedd dechrau sgrifennu cofiannau i hen bregethwyr, a chael capeli yn ei wahodd i edrych trwy eu hen lyfrau cofnodion a llawysgrifau yn pydru yng nghorneli a chilfachau hen gapeli'r Annibynwyr. Sgrifennodd gofiant byr i berthynas iddo, David Thomas, Pen-Main yn Sir Fynwy, yn 1842. Cafodd flas arbennig ar hanes. Dysgodd ddarlllen llawysgrifen yr ymneilltuwyr cynnar, a hoffi darganfod beth oedd y gwir wahaniaethau hanesyddol yn natblygiad y Presbyteriaid a'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr, a cheisio deall beth oedd eu cwyn yn erbyn yr Eglwys Wladol. Byddai'n gallu gweld felly sut yr oedd Arminiaeth ei fam-gu yn mynd yn groes i Galfiniaeth gul mwyafrif y Piwritaniaid. Roedd yn gallu sgrifennu a phregethu'n rhwydd erbyn hyn yn Saesneg, a hoffai ymweld ag eglwysi crand a pharchus yr Annibynwyr yn Lloegr. Gallai wneud i'r Saeson ryfeddu at nifer rhif y gwllith o gapeli oedd yn agor ar draws Cymru, a gofyn am help y cyfoethogion yno fel y brodyr Wills ym Mryste a Crossley yn Leeds, miliwnydd y carpedi. Gallai hefyd ddod ar draws radicaliaid Rhyddfrydol y pulpud megis Henry Richard, a dechrau gweld posibiliadau o wella hawliau gwladol yr anghydfurfwyr trwy gael aelodau yn San Steffan fyddai'n eu cynrychioli'n well. Gwyddai i'r dim

sut i berswadio Annibynwyr cyfoethog o Loegr. Dyry Dr John Thomas yn ei gofiant stori amdano'n mynd i gael arian gan Thomas Barnes, Quinta, gan wybod yn iawn fod Mr Barnes yn gas ganddo smygu. Digwyddodd Barnes ddal Thomas Rees yn smygu yn yr ardd, ac ar unwaith dyma Thomas yn esbonio ei fod wedi clywed nad oedd dim yn well na thybaco i ladd *greenfly* ar y rhosys, ac unig bwrpas ei smygu oedd diogelu'r blodau godidog.

Yn 1849 derbyniodd alwad unwaith eto i flaenau Gwent, i gapel Carmel yn y Cendl, sef Beaufort, ac erbyn hynny roedd Saeson i'w gweld ymhob twll a chornel, a Thomas yn bendant am gael cynllun i'w tynnu mewn i gapeli Saesneg o Annibynwyr. Ei ddadl oedd y byddai hynny yn diogelu Cymreigrwydd yr hen achosion. Trefnodd ddwy gynhadledd fawr, un yn y Cendl yn 1853, ac un arall yng Nghaerdydd yn 1860, a dyna pryd y daeth o dan gabl dynion fel Michael D. Jones a'i gyfeillion am bregethu'r 'English Cause'. Roedd teithio erbyn hyn yn haws ar y rheilffyrdd newydd, a byddai Thomas yn mynd i odro cyfoethogion Lloegr, gan achub ar y cyfle i astudio mewn llyfrgelloedd megis y Public Record Office a llyfrgell Dr Williams. Roedd hefyd yn ddiflino yn ddadleuwr dros yr anghydfurfwyr yn y wasg, Saesneg a Chymraeg. Roedd yn esiampl dda o'r hyn a ddywedai Dr Tudur Jones, bod pregethwyr mawr Oes Fictoria yn gorfod meddu ar gyfansoddiad ych. Canlyniad yr holl astudio oedd clamp o gyfrol Saesneg yn 1861 *The History of Protestant Nonconformity in Wales*. Nid *Dissent*, sylwer, er bod y llyfr yn dechrau tua 1633 gydag amlygrwydd yr hen Biwritaniaid, ond *Nonconformity*, er mwyn cynnwys yr enwadau a gododd yn ystod y ddeunawfed ganrif. Cyfrol wir ddarllenadwy, ac yn Saesneg, i ennill cydymdeimlad Saeson ac yn wir Americanwyr, at gryfder ein mudiad ni yng Nghymru. Cafodd Thomas ddoethuriaeth gan Brifysgol Marietta yn Ohio, a dyna sut y daeth yn Dr Rees. Roedd Michael D. Jones yn gwawdio 'y doethuriaethau trawsweryddol'.

Canlyniad cyhoeddi'r *History* oedd cael galwad o'r diwedd i 'brifddinas yr Annibynwyr', i gapel Ebenezer, Abertawe yn 1861, a hynny yn rhoi cyfle i Thomas, yn awr y Dr Rees, gydlynu dathliadau'r anghydfurfwyr i goffáu sefydlu'r enwadau ddwy ganrif ynghynt trwy 'Dorri Allan' y Piwritaniaid

o'r Eglwys Wladol yn 1662. Agweddd arall ar y dathlu oedd agor y Coleg Coffa, sef coffáu 1662, yn Aberhonddu. Roedd Dr Rees yn amlwg wrth ei fodd yn byw yng nghanol tref brysur fel Abertawe. Taflodd ei hun mewn i fywyd trefol Abertawe fel pregethwr ac fel darlithydd poblogaidd, e.e. ei ddarlithiau i'r *Royal Institution of South Wales*, sefydliad yr oedd Dr Rees yn awyddus i'w gael fel cnewyllyn llyfrgell genedlaethol i Gymru. Taflodd ei hun mewn i'r berw Rhyddfrydol, gan helpu ei gyfaill Evan Matthew Richards i ddod yn aelod seneddol Sir Aberteifi yn 1868. Roedd buddugoliaeth ei gyfaill Henry Richard fel aelod seneddol newydd Merthyr yn cael ei ystyried yn chwyldroadol. Roedd Richard yn 1866 wedi cyhoeddi casgliad o lythyrau i'r wasg yn darlunio Cymru fel 'Cenedl o Anghyddfurfwr'. Cyhoeddodd Dr Rees yntau ei gasgliad o erthyglau a darlithiau ym 1867 dan y teitl *Miscellaneous Papers Relating to Wales*, a dyma gasgliad sydd yn helpu i ddiffinio'r cysyniad o 'Werin Cymru', hynny yw y werin dduwiol, ddeallus, ddiwyd a pharchus, a fyddai'n troi Cymru yn wlad o ryddfrydwy'r capelyddol, fe obeithid. Roedd Siartiaeth, ebe Dr Rees yn ddim byd ond Saeson drygionus yn dod mewn i lygru ein parchusrwydd ni. Hefyd mae ganddo ysgrif ryfeddol ar 'The Alleged Unchastity of the Women of Wales', lle mae yn profi bod merched o Loegr yn llawer mwy anllad na merched Cymru fel y cawsant eu portreadu yn Llyfrau Gleision 1847. Diddorol nodi bod cydymdeimlad dwfn Dr Rees gyda'r merched – y dynion oedd yn achosi'r anlladrwydd, hwy oedd y 'diabolical seducers'. Syniad annisgwyl yn y cyfnod.

Roedd Dr Rees trwy'r chwedegau yn gweithio ar ddau gynllun mawr. Un oedd mynd yn ddygn i bwyllgorau am naw mlynedd cyn iddo lwyddo i gael ei ffordd mewn cynhadledd yn Ebenezer, Abertawe, ym 1871 i dynnu'r eglwysi Annibynnol ynghyd mewn rhyw fath o gynghrair lac sef yr Undeb, a gafodd ei gyfarfodydd cyntaf yng Nghaerfyrddin ym 1872. Y llall oedd casglu deunydd am bob un o'r achosion unigol oedd gan yr Annibynwyr, a chyda'i gyfaill Dr John Thomas o Lerpwl, gan gyhoeddi pedair cyfrol fawr, *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, a gyhoeddwyd yn rhannau rhwng 1870 ac 1875. Mae'n amhosibl meddwl sgrifennu am ein hanes ni heb fynd at y cyfrolau hyn, ac at bumed cyfrol a ychwanegwyd wedyn gan Dr Thomas.

Gyda'r sylw manwl i'r eglwysi lleol, mae yma hefyd sylwadau ar natur ein heglwysi yn y gwahanol siroedd: dyna bobol Sir Forgannwg fel pobol sionc a bywiog, o achos bod cymaint o ddilyn chwaraeon o bob math yn eu cefndir. Ceir darlun wedyn o eglwysi gwledig Dyfed, fel eglwysi traddodiadol o'r hen Ymneilltuaeth lle mae'r un hen deuluoedd ffermwrol wedi bod yn eu cefnogi dros yr oesoedd, a'r gweinidogion ambell dro yn feibion i'r un teuluoedd patriarchaidd. Tybed a oedd y ddau ddoethur oedd yn ceisio tynnu'r eglwysi ynghyd, hefyd yn ystyried y byddai sgrifennu hanes pob uned yn unigol yn cadw'r ddysgl yn wastad, a phlesio gelynyon i'w syniadau, megis Michael Daniel Jones a Dr Pan Jones?

Aeth y ddau o Lerpwl i America ym 1876 i werthu'u llyfrau ond bu'n rhaid i Thomas Rees adael yn gynt na'r disgwyl pan alwyd ef i ddychwelyd i Abertawe, am fod ei wraig Jane wedi marw'n sydyn. Hefyd pan oedd yn America, aeth un o feibion Dr Rees, Ebeneser Rees, i drafferthion yn ei fusnes, a gorfod dianc i America, a'r tad a'r mab yn pasio ei gilydd wrth fod eu llongau yn croesi'r Iwerydd ar yr un pryd. Er bod Dr Rees wedi ei ysigo yn arw gan y trasiediau, credai mai'r feddyginiaeth orau oedd taflu ei hun mewn i ragor o weithgaredd. Bu yn llywydd yr Undeb newydd ddwywaith ac etholwyd ef yn llywydd y Congregational Union ychydig cyn ei farw yn 1885. Bu'n weithgar dros sefydlu coleg prifysgol newydd yn Abertawe yn 1883, er bod yr ymdrech yn ofer, a Chaerdydd gafodd y coleg, er mawr siom iddo.

Yn ei gofiant i Dr Rees mae ei gyfaill Dr Thomas yn dweud fod pawb yn ystyried Dr Rees yn ddyn mawr, ac eto, doedd neb yn gallu diffinio beth oedd ei fawredd. Buaswn i'n tybio ei fod yn rhyw fath o ymgorfforiad o holl rinweddau'r cyfnod, ac felly yn apelio'n dda at ystod eang o bobol. Mae Dr Rees ei hun yn son am ryw druan o'r enw Thomas Davies, gweinidog disglair o Bentre Estyll yn Abertawe, ond a oedd hefyd yn feddwyn diog, ac yn dweud mai'r dynion oedd yn mynd bellaf oedd y rheini o ddoniau digon cyffredin a oedd yn gallu eu defnyddio nhw orau am eu bod yn weithgar a di-ildio. Tybed ai math o hunanbortread sydd yma? Roedd cyfrolau'r ddau ddoethur yn rhagdybio y byddai concwest yr anghydfurfwyr yn mynd yn ei blaen o nerth i nerth ymhell mewn i'r

ugeinfed ganrif. Ond nid felly bu. Daeth teyrnas Rhyddfrydiaeth Cymru i ben erbyn 1922, ac y mae Dr Tudur Jones wedi nodi'r heriau yn codi o gyfnod y 1880au ymlaen. Mae haneswyr Cymru wedi anghofio am Dr Rees, gan eu bod ar y cyfan wedi ffafrio mudiadau'r Chwith. Mae cenedlaetholwyr yn methu cynhesu ato, o achos ei Sais-addoliaeth, ac am ffafrio'r hyn oedd Emrys ap Iwan yn ei wawdio fel yr Inglis Cos, ac yn ochri gyda gelynion a beirniaid Dr Rees, fel Michael Daniel Jones ac Emrys ap Iwan oedd yn danbeitiach eu Cymreigrwydd.

Rwyf i yn y sgwrs yma wedi ceisio dadlau bod Thomas Rees yn cynrychioli meddylfryd rhanedig Cymry Oes Fictoria. Roedd yn bendant yn cynrychioli Sais-addoliaeth ar adeg pan oed grym Ymerodraeth y Saeson yn ei anterth ar draws y byd. Ond roedd yna ochr arall i'w waith. Mae yn dipyn o broffwyd sydd heb barch yn ei wlad ei hun. Ef oedd yr hanesydd cyntaf, hyd y gwelaf i, i greu delwedd o 'Werin Cymru', ac ar ben hynny roedd ganddo ddarlun clir o Anghydffurfiaeth fel mudiad cenedlaethol Cymreig. Nid oedd ar unrhyw gyfrif am weld yr Undeb yn ymuno gyda'r Congregational Union, er enghraifft. Roedd hefyd yn un o'r cyntaf i awgrymu cynllun i gael llyfrgell genedlaethol. Ar ben y syniad o Werin, a chryfder goruchafol Anghydffurfiaeth y genedl, roedd ganddo ddarlun clir o ddatblygu ein cenedligrwydd ar sail y Werin Anghydffurfiol yn y cyfnod wedi Lecsiwn Fawr 1868. Am y pethau hyn, rwyf yn credu y dylem ei barchu, a'i achub o ebargofiant. Y cyfan rwyf i wedi ei wneud fan hyn yw ceisio bod yn deg gydag ef, a gadael i ddynion o oes arall fyw eu bywydau ar sail safonau eu hoes eu hunain. A thrwy hynny rwyf yn ceisio deall eu cyfnod yn well, a chael tecach dealltwriaeth gobeithio o seiliau'r Gymru gyfoes.

Llyfryddiaeth

- Cragoe, M. W., *Culture, Politics and National Identity in Wales, 1832–1885* (Oxford , 2004).
- Davies, E.T., *Religion in the Industrial Revolution in South Wales* (Cardiff, 1965).
- Davies, E.T., *Religion and Society in the Nineteenth Century* (Llandybie, 1981).
- Jones, I.G., *Explorations and Explanations: essays in the social history of Victorian Wales* (Llandysul, 1981).
- Jones, I.G., *Communities: essays in the social history of Victorian Wales* (Llandysul, 1987).
- Jones, I., David Rees, *Y Cynhyrfwr* (Abertawe.1971).
- Jones, R.T., *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe,1966).
- Jones, R.T., *Yr Undeb, 1872–1972* (Abertawe, 1975).
- Jones, R.T., *Ffydd ac Argyfwng Cenedl, Hanes Crefydd yng Nghymru, 1880–1914* (2 gyfrol, Abertawe, 1981, 1982).
- Morgan, P. (gol.), *Brad y Llyfrau Gleision* (Llandysul,1991).
- Morgan P., ‘A Nation of Nonconformists: Thomas Rees (1815–85) and Nonconformist History’ yn N. Evans a H. Pryce (gol.), *Writing a Small Nation’s Past: Wales in a Comparative Perspective, 1850–1950*, (Farnham, 2013).
- Roberts, G.T., *The Language of the Blue Books: Wales and Colonial Prejudice* (Cardiff, 2011).
- Thomas, J., *Cofiant y Parchedig Thomas Rees, DD. Abertawy* (Dolgellau, 1888).

Helynt Eglwys Rydd y Cymry

*Darlith Goffa Dr Pennar Davies a Dr R Tudur Jones a draddodwyd
yn encil gweinidogion yr Annibynwyr 22 Ebrill 2026, Lerpwl*

Dr Geraint Tudur, Bangor

Tra'n diolch yn ddiffuant am y gwahoddiad i ddod yma heno i sôn am helynt Eglwys Rydd y Cymry, rwy'n siŵr bod llawer ohonoch yn gwybod fod y stori wedi ei hadrodd eisoes gan R. Tudur Jones yn y gyfrol gyntaf o *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*.¹ Mae'n stori hir, rhy hir i'w hadrodd yma heno mewn cwta awr, ac felly fy ngobaith yw, os byddwch yn cael blas ar yr hyn sydd gen i heno, y byddwch yn mynd ymlaen i ddarllen y gyfrol yr wyf newydd gyfeirio ati.

Yn Lerpwl y mae'r helynt yn digwydd, a hynny ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ym 1800, poblogaeth Lerpwl oedd tua 80,000, ond erbyn 1900 yr oedd nifer y dinasyddion wedi cynyddu i 685,000, a Lerpwl yn cael ei hystyried fel dinas² oedd yn cynnig cyfleon a gwaith i bobl.³ Rhan o'r mewnlifiad oedd miloedd o Gymry Cymraeg a symudodd i Lerpwl i geisio gwella eu byd, ac yr oedd o leiaf 30,000 ohonynt yno erbyn 1890. I ofalu am y wedd ysbrydol i'w bywyd, yr oedd gan bob un o'r enwadau gapeli yno, ond y Methodistiaid Calfinaidd oedd gryfaf, a hefyd y mwyaf dylanwadol.

Ond cyn i ni fynd ymlaen â stori Lerpwl, dewch yn ôl am ychydig i Gymru i mi gael rhoi rhai ffeithiau newydd i chi na chewch mohonynt gan R. Tudur Jones. Dewch i blwyf Llanarmon, ger Chwillog, lle y ganwyd William Owen Jones, prif gymeriad ein stori ni heno, ar 7 Ebrill 1861. Trydydd plentyn Richard ac Ellen Jones, Penbryn, Pencoed ydoedd,⁴ brawd i Ellen a Sydney oedd yn hŷn nag ef, a Mary oedd fymryn yn iau.⁵ Roedd Richard, y tad, yn aelod yng nghapel Pencoed, a chodwyd ef yn flaenor yno tua 1861. Yn ddiddorol iawn, wrth wrando ar bregeth gan John Jones, Talysarn, ym Mhencoed y cafodd ei dröedigaeth pan yr oedd tua dwy ar bymtheg oed.⁶

Mae'n ymddangos fod y teulu yn ddigon cyfforddus eu byd,⁷ ond buan y daeth rhai o ystormydd bywyd i'w poeni. Bu farw Ellen, y ferch hynaf, yn un ar hugain oed ym mis Ionawr 1878,⁸ ac yna'r tad, Richard, o fewn blwyddyn a hanner wedyn, ym mis Mehefin 1879.⁹ Roedd y teulu erbyn hynny wedi symud o Penbryn i fferm Coed-cae-du yn ardal Brynengan, ac yno yn Hydref 1883 y bu farw'r ail ferch, Sydney, yn bump ar hugain oed.¹⁰ Er yn weddw ac wedi colli dwy o'i merched, daliodd Ellen, y fam, ati i ffermio. Bu hi farw ym mis Ionawr 1900 yn 76 oed yn Sgubor Hen, Chwilog,¹¹ cartref Mary, y drydedd ferch. Bu hithau farw wedyn ym 1909 yn 45 oed.¹² William Owen, felly, oedd yr unig un o blant Penbryn i fwynhau hir oes gan iddo fyw hyd 1937, a marw ar 14 Mai yn 76 oed.

O ran ei addysg, bu William mewn ysgolion yn Llanystumdwy a Chlynnog, ac yn Academi Holt ger Wrecsam. Academi Bresbyteriaidd oedd hon, wedi ei sefydlu gan Ebenezer Powell, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Ac yno y dechreuodd bregethu cyn mynd i Goleg y Bala, wedyn i Brifysgol Bangor, ac wedi hynny i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt, lle y graddiodd gydag anrhydedd mewn athroniaeth ym 1890.

Dechrau wedyn ar ei weinidogaeth yn Waunfawr, Arfon, ac un o'r papurau lleol yn cyhoeddi ym mis Mai 1890 y byddai 'W. O. Jones, Pencoed, yn dechreu bugeilio yn y Waunfawr yn ystod y misoedd nesaf . . .' a hynny ' . . yn yr hen addoldy, sef Bethel.'¹³ Yng Nghyfarfod Misol Arfon, ar y pedwerydd ar bymtheg o'r un mis, 'cadarnhawyd galwad unfrydol Waenfawr i'r Parch W. O. Jones . . . Darllenwyd hefyd ei lythyr cyflwyniad o gyfarfod misol Lleyn ac Eifionydd.'¹⁴ Ac yna'r ordeinio yn y Gymdeithasfa Chwarterol yn Penmount, Pwllheli, ar fore Iau, 27 Awst 1891,¹⁵ W.O. a thri ar ddeg o frodyr eraill.

Byr fu ei gyfnod yn y Waunfawr oherwydd dros y Sulgwyn 1892 bu'n bregethwr gwadd yng nghymanfa bregethu Methodistiaid Calfinaidd Lerpwl, a phregethu chwech o weithiau.¹⁶ Mae'n amlwg iddo wneud argraff dda gan iddo dderbyn galwad gan eglwys Chatham Street, Lerpwl yn Ionawr y flwyddyn ganlynol.¹⁷ Erbyn diwedd mis Ebrill, yr oedd wedi cyrraedd y ddinas, a chyfarfod wedi ei gynnal ar 2 Mai i'w groesawu. Yna, ar 13 Mai, darllenwyd ei lythyr cyflwyniad yn y cyfarfod misol a'i groesawu'n ffurfiol.¹⁸

Beth sydd i'w ddweud am eglwys Chatham Street? Heb amheuaeth, yr oedd yn eglwys ffyniannus gydag aelodaeth o tua 375 adeg agor ei chapel newydd ar 1 Hydref 1861. Chwe mis ar ôl hynny, yr oedd yr aelodaeth wedi neidio i 519, a Henry Rees, gweinidog enwocaf a phrif arweinydd Methodistiaid Calфинаidd y cyfnod oedd yn bennaf cyfrifol am hynny. Wrth gwrs, roedd hyn gryn ddeng mlynedd ar hugain cyn i W.O. gyrraedd, ond eglwys yn tyfu oedd hi hyd yn oed ar ôl marwolaeth Henry Rees ym 1869. Erbyn 1875, 795 oedd rhif yr aelodaeth, ond yna fe sefydlodd Methodistiaid Lerpwl ddwy eglwys newydd; un yn Holt Road, a'r llall yn Webster Road. Effeithiodd hyn yn fawr ar Chatham Street, a disgynnodd rhif yr aelodau o 728 i 493.

Ac i'r eglwys hon y daeth W.O.. Yn y dyddiau hynny, roedd gan eglwysi Lerpwl noddwyr cyfoethog, ac un o noddwyr hael Chatham Street oedd neb llai nag Eliezer Pugh,¹⁹ y masnachwr cotwm hynod gyfoethog hwnnw o Ddolgellau a fu, gyda'i wraig Mary,²⁰ yn defnyddio'u cyfoeth i hybu tystiolaeth yr eglwysi a gwaith dyngarol ymhlith Cymry Lerpwl. Dywedir fod Pugh wedi ymrwymo am flynyddoedd i gyfrannu £1,000 y flwyddyn at achosion crefyddol y ddinas.²¹ Yn arian heddiw, byddai hynny dros £160,000.

Roedd blynyddoedd cyntaf gweinidogaeth W.O. yn rhai llwyddiannus a hapus. Yn *Y Goleuad* ym mis Mawrth 1897, cafwyd adroddiad dienw yn dweud:

Yr wyf newydd dderbyn adroddiad blynyddol eglwys Chatham Street. Bu yr eglwys hon yn myned i lawr am flynyddoedd lawer yn rhif ei haelodau a swm ei chasgliadau; eithr un o arwyddion cyntaf dyfodiad y Parch. W. O. Jones B. A., i'w bugeilio, oedd iddo lwyddo i roddi "strocan" mor effeithiol y tu ôl i'r olwyn, fel y rhwystrodd iddi fyned un fodfedd i lawr ymhellach; a buan hefyd y gwelwyd hi yn cychwyn ar i fyny.²²

Beth aeth o'i le, felly, i aflonyddu ar y fath sefyllfa ddymunol a llwyddiannus?

Mae'n ymddangos fod iechyd W. O. Jones wedi dioddef o ganlyniad i'w waith caled yn ystod ei flynyddoedd cynnar yn Lerpwl, a bod ei feddyg wedi awgrymu y byddai mynd ar fordaith yn llesol iddo. Ar 6 Ionawr 1899, digwyddodd sôn am hyn mewn sgwrs â John Jones, Sefton, Prestatyn,²³ pan gyfarfu'r ddau yn stesion Lime Street, a chan fod John Jones yn gweithio i gwmni llongau John Glynne a'i Fab, fe gynigiodd drefnu mordaith iddo ar unwaith. Ac felly, lai na phythefnos wedi'r sgwrs, ar 19 Ionawr 1899, cychwynnodd W.O. am y Môr Canoldir ar y stemar *Vito*. Pan ddychwelodd ar 17 Mawrth yr oedd yn llawer iawn gwell, a dyma ailgydio yn y gwaith unwaith eto.

Ymhen llai na mis wedyn, cododd problem yn Chatham Street. Cafodd aelod ei gyhuddo o anlladrwydd ac yr oedd galw am ddisgyblu'r troseddwr.²⁴ Wedi ymchwiliad, yr oedd y gweinidog, Eliezer Pugh ac un blaenor arall o'r enw John Bebb o blaid ei ddiarddel dros dro, ond na, meddai pedwar blaenor arall, fe ddylid ei ddiarddel yn llwyr, ei ysgymuno am byth. Bu cryn ddadlau uwchben yr achos am rai wythnosau cyn penderfynu gosod y mater gerbron y gynulleidfa. Digwyddodd hynny ganol mis Gorffennaf 1899, a'r penderfyniad oedd gweinyddu'r gosb a ddymunai'r gweinidog, sef diarddel tros dro. Ffromodd y pedwar blaenor llym, gyda thri ohonynt yn bygwth ymddiswyddo. Dyma'r gweinidog yn dweud y byddai yntau, felly, yn ymddiswyddo, ond wedi cyfarfod rhwng y tri blaenor a'r gweinidog, cytunodd pawb i beidio ymddiswyddo a cheisio cydweithio o hynny ymlaen.

Cafwyd heddwch hyd ddechrau mis Medi. Ar y seithfed o'r mis hwnnw, mewn seiat yn y capel, ymddangosai'r gweinidog ychydig yn ansicr a thrwsgl. Yn ôl rhai, yr oedd yn siarad yn arafach nac arfer, ac mewn bedydd ar ddiwedd y cyfarfod, fe gymysgodd rhwng y fam a'r nyrs. Cafwyd peth holi ymhlith y gynulleidfa a oedd Mr Jones yn sâl, ond dywedodd rhywun wrth un o'r blaenoriaid fod y gweinidog ag arogl diod arno.²⁵ Cadarnhaodd y blaenor hynny, gan i'r gweinidog, meddai, droi ato yn ddigon agos i sibwrdd i'w glust, 'a sylwais . . . ar unwaith ei fod yn arogl'n gryf o'r diodydd meddwol – yn ddiamheuol felly . . .' William Williams, Verulam Street, oedd y blaenor hwn, un o'r rhai llym yn Chatham Street, ac un o'r tri oedd wedi

bygwth ymddiswyddo. Wedi hebrwng y gweinidog adref, dywedodd ei fod wedi mynegi ei amheuo iddo, ond ymateb y gweinidog oedd, nad oedd angen pryderu, 'yr wyf yn ddirwestwr, yr wyf yn TT, ond fe wadodd W.O. yn ddiweddarach i'r sgwrs hon ddigwydd o gwbl.²⁶

Cafwyd cyfnod arall o heddwch tan ddiwedd mis Hydref. Ar nos Sul olaf y mis, llofnodwyd llythyr gan y pedwar blaenor fethodd gael eu ffordd gyda mater y disgyblu ym mis Gorffennaf. Llythyr i'r cyfarfod misol oedd hwn yn gofyn a oedd yn gyson â rheolau'r cyfundeb i eglwys ddewis rhwng diarddel tros dro ac ysgymuno'n barhaol wrth gosbi anlladrwydd? Trafodwyd y mater gan y cyfarfod misol ar 8 Tachwedd, a'r dyfarniad oedd y dylid ysgymuno'n barhaol.

Gan fod hyn yn groes i ddymuniad W.O. ac yn tanseilio ei hygredded, penderfynodd gyflwyno ei ymddiswyddiad i'r blaenoriaid trannoeth y drafodaeth. Ar 20 Tachwedd, trafodwyd y mater gan y gynulleidfa yn Chatham Street a chafwyd anerchiadau tanbaid gan aelodau o blaid y gweinidog tra hefyd ar yr un pryd yn fflangellu'r blaenoriaid. Gan mai dymuniad y mwyafrif llethol oedd bod W.O. yn parhau fel gweinidog yr eglwys, bu'n rhaid cael rhai o golofnau Methodistiaeth Galfinaidd Lerpwl draw dridiau yn ddiweddarach i geisio tawelu'r dyfroedd, a neb llai na John Williams, gweinidog Princes Road, sef 'John Williams, Brynsiencyn', fel y daeth i gael ei adnabod.

Wrth i'r ychydig fisoedd nesaf fynd heibio, daeth yn amlwg fod Williams, Verulam Street, yn ddyn piwis yn ogystal â llym, a'i fod yn cynnal ymgych breifat yn erbyn ei weinidog. Rhoddodd heibio alw cyfarfodydd blaenoriaid, a threfnodd oedfaon cymun pryd na fyddai'r gweinidog yno. O ganlyniad, dirywiodd ieuchyd W.O. unwaith eto, a hynny i'r fath raddau fod y meddyg wedi dweud wrtho ar ddiwedd mis Chwefror 1900 y dylai gael cyfnod o orffwys. Ar 2 Mawrth, cyflwynodd ei ymddiswyddiad am y trydydd tro i'r blaenoriaid,²⁷ ond cafodd ei berswadio fore trannoeth i dynnu'r ymddiswyddiad hwnnw yn ôl.

Âi ieuchyd yn fregus, penderfynodd W.O. ddod yn ôl i Gymru i gael y cyfnod seibiant, ond cyn gadael Lerpwl ar 6 Mawrth, rhoddodd ganiatâd i dri gweinidog, Griffith Ellis, Stanley Road, Bootle,²⁸ John Williams, Princes

Road, a'r Dr Hugh Jones, Netherfield Road,²⁹ i gyfarfod â blaenoriaid Chatham Street i gymodi'r pleidiau yno.³⁰ Gwrthododd y blaenoriaid eu cyfarfod, ac ar ben hynny, bu iddynt gyhoeddi ar ddydd Sul, 11 Mawrth, fod y gweinidog *wedi* ymddiswyddo. Cyhoeddwyd Cwrdd Eglwys ar 15 Mawrth, a chan mor enbyd oedd y sefyllfa, teithiodd W.O. yn ôl i Lerpwl er mwyn medru bod yn bresennol.

Un arall o'r blaenoriaid llym, J. W. Jones, oedd yn llywyddu, a chyhoeddodd nad oedd ef, na thri o'r blaenoriaid eraill bellach yn gallu cydweithio â W.O. Jones. Cynigwyd gan aelod eu bod yn gofyn i'r cyfarfod misol gynnal ymchwiliad i'r holl fater, ac eiliwyd y cynnig gan W.O. ei hun. Pan gyfarfu'r henaduriaeth bythefnos yn ddiweddarach, ar 28 Mawrth, penderfynodd benodi pwyllgor i ystyried y sefyllfa yn Chatham Street, a'i dasg oedd ystyried yr anghydweld rhwng aelodau Chatham Street a'r blaenoriaid, a hefyd rhwng yr eglwys a'r cyfarfod misol.³¹

Bwriodd y pwyllgor i'w waith ddeuddydd yn ddiweddarach, ond aeth beirniaid W.O. ymhlith blaenoriaid Chatham Street ati ar unwaith i ehangu cylch yr ymchwil. Codwyd amheuaeth am ei sobrwydd. Wedi ystyried y dystiolaeth, barn y pwyllgor fore trannoeth oedd y dylai W.O. lynu at ei ymddiswyddiad. Y diwrnod wedyn, 1 Ebrill, a hithau'n Sul, daeth Dr Hugh Jones, Netherfield Road, cadeirydd y pwyllgor, a John Williams, Princes Road, i Chatham Street i roi'r mater gerbron. Rhestrododd Dr Hugh y cyhuddiadau yn erbyn y gweinidog ond heb ddatgan a oedd yn euog ai peidio. Yna galwodd ar W.O. i gyflwyno ei ymddiswyddiad. Cododd yntau a dweud ei fod yn fodlon ymddiswyddo dim ond iddo gael gwneud hynny heb awgrym o staen ar ei gymeriad. Yr oedd, felly, eisiau datganiad cliriach gan y Dr Hugh Jones ynglŷn â'i euogrwydd. Heb hynny, yr oedd yn gwrthod ymddiswyddo.

Wrth glywed hyn, dechreuodd y gynulleidfa guro dwylo'n frwdfrydig, a hyd yn oed wedi i John Williams godi a sicrhau pawb y byddai W.O. yn medru gadael heb unrhyw staen ar ei gymeriad pe byddai ei ymddiswyddiad yn cael ei dderbyn, pan aethpwyd i bleidlais, ni chododd cymaint ag un llaw o blaid derbyn yr ymddiswyddiad hwnnw.

Gan fod Dr Hugh wedi gwneud y fath stomp o'r ymgais i berswadio

eglwys Chatham Street i dderbyn penderfyniad y cyfarfod misol, a chan fod balchder John Williams, Princes Road, wedi ei dolcio gan y methiant, penderfynwyd yng nghyfarfod nesaf yr henaduriaeth ar 9 Mai fod angen gwneud ymchwiliad pellach i achos W. O. Jones, a phenodwyd ail bwyllgor ymchwil.

Yr un bobl oedd ar y pwyllgor hwnnw a'r pwyllgor cyntaf, ond roedd maes eu hymchwil yn awr i gynnwys y cyhuddiadau moesol yn erbyn W.O.. Ar 17 Mai, aeth dirprwyaeth dan arweiniad Dr Hugh Jones i Chatham Street eto i ddweud hynny wrth yr eglwys, ac i ddweud hefyd nad oedd W. O. Jones bellach yn weinidog iddynt. Dridiau yn ddiweddarach mewn cyfarfod brodyr, ac mewn cwrdd eglwys bedwar diwrnod ar ôl hynny, ar 24 Mai 1900, plediodd yr eglwys ei theyrngarwch i'w gweinidog a phasio penderfyniad yn datgan nad oeddent yn gweld rheswm digonol dros dorri cysylltiad ag ef. Roedd gan yr henaduriaeth, felly, wrthryfel gwirioneddol yn y rhengoedd.

Bwriodd yr ail bwyllgor ymchwil i'w waith ar 18 Mai 1900, a rhwng hynny a 10 Gorffennaf, cafwyd pymtheg eisteddiad. Y diwrnod wedyn, cyflwynodd y pwyllgor ei adroddiad i'r cyfarfod misol. Fel rhan o'i ymchwil, yr oedd wedi bod yn chwilio am dystiolaeth am fywyd preifat W.O., ac wedi canolbwyntio ar ddau bwnc; yr amheuan am ei sobrwydd, a digwyddiadau yn ystod mordaith y *Vito*.³² Galwyd ar bobl i ymddangos fel tystion, a thra yr oedd rhai yn dweud nad oeddent erioed wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gamddefnyddio alcohol gan W.O., yr oedd eraill yn dweud mai ymddygiad 'gwahanol' y gweinidog oedd wedi peri iddynt amau ei fod ychydig yn feddw. Tystiolaeth blaenor o'r enw Humphrey Lloyd oedd ei fod wedi gweld arwyddion o effaith alcohol ar y gweinidog mewn cyfarfod diolchgarwch ym mis Hydref 1898 a chyfarfod gweddi ym mis Chwefror 1900, a hyn, meddai, a barodd i'r pedwar blaenor ddweud ym mis Mawrth na allent bellach gydweithio â'u gweinidog.³³

Dryslyd braidd oedd dystiolaeth William Williams, Verulam Street. Awgrymodd fod si ar led fod W. O. Jones wedi torri dyweddiad â'i ferch, Dora, a fu farw'n fuan wedyn o dor calon. Dywedodd hefyd fod W. O. wedi honni i Lloyd, mab William Williams, fod yn aros gydag ef yn ei lety ac

awgrymu nad oedd perthynas dda rhyngddo ef â'i dad, ond pan aeth Williams i holi ei fab, gwadodd hwnnw iddo erioed aros yn llety W.O.. Nid oedd a wnelo'r straeon hyn ddim byd o gwbl â'r ymchwiliad, ond yr oeddent yn fodd i fwrw cysgodion ychwanegol ar gymeriad W.O..

On roedd ychwaneg. Dywedodd Williams iddo alw yn llety W.O. tra yr oedd ar ei fordaith yn y Môr Canoldir, a siarad â'r wraig oedd yn cadw'r tŷ. Yr oedd hi wedi dweud fod W.O. yn mwynhau gwell iechyd pan *nad* oedd yn yfed wisgi, ond yn glynu at *claret*. At y dystiolaeth hon, ychwanegodd dau arall o flaenoriaid Chatham Street eu hamheuron fod eu gweinidog yn achlysurol dan ddylanwad alcohol, ond yn fuan wedyn gwadodd gwraig llety W.O. ei bod wedi dweud unrhyw beth wrth William Williams am unrhyw *claret*. Aethpwyd ati, felly, i holi morwynion oedd wedi bod yn gweithio yn y llety. Roedd un yn dweud iddi fod yn cario poteli wisgi i ystafell W.O., a'i fod ef a gwraig y llety yn yfed yn hwyr i'r nos. Er hynny, meddai, nid oedd erioed wedi ei weld yn feddw. Dywedodd un arall ei fod wedi dod yn ôl i'w lety yn hwyr un noson, ei fod ychydig yn simsan, a'i fod hefyd wedi ei chyfarch mewn modd nad oedd yn gweddu i weinidog.³⁴

Y tystion nesaf oedd William a James Venmore. Yr oeddent hwy wedi teithio ar drên i Gemaes, Ynys Môn, gyda W.O. ar achlysur priodas John Williams, Princes Road. Yn ystod y daith, meddent, yr oedd W.O. yn y *saloon* yn amlwg dan ddylanwad diodydd meddwol, ond wrth ystyried crededd y dystiolaeth hon, yr oedd yn rhaid cofio bod James Venmore yn briod â merch David Hughes, gynt o'r Wylfa, a'r ferch yr oedd John Williams yn ei phriodi oedd Edith Mary, un arall o ferched David Hughes. Ar ben hynny, yr oedd James Venmore a David Hughes yn gyd-flaenoriaid yn eglwys Anfield Road. Ac, o gofio tystiolaeth y brodyr Venmore am y daith ar y trên, yr oedd eraill oedd ar yr un daith, yn rhyfedd iawn, yn dweud nad oedd dim o'i le ar ymddygiad W.O..³⁵ Felly, gan mai dim ond sibrydion a honiadau pur sigledig a gafwyd hyd yma, ymddengys bod pwyllgor ymchwilio'r cyfarfod misol yn cael cryn drafferth i ddarganfod unrhyw dystiolaeth gadarn o unrhyw feddwod yn ymddygiad W.O. Jones.

On beth am y fordaith ar y *Vito*? Flwyddyn wedi'r fordaith honno, aeth y Dr Hugh Jones, Netherfield Road, a John Williams, Princes Road, i weld

y capten oedd yn byw ym Mhrestatyn, ac erbyn hyn yn ddyn gwael. Beirniadol iawn oedd Isaac Jarvis o W.O., yn dweud fod ei ymddygiad yn annheilwng, ei fod yn 'ddyn anfoesol', a bod ei sgysiau â theithiwr arall o'r enw Mr Taylor yn 'amhur a llygredig'. Dywedodd iddo brynu bocs o ddeuddeg potel wisgi iddo, ac fel y dywedodd Tudur Jones, 'diau fod y ddau bregethwr yn gweld y llofft yn chwyrlio o'u cwmpas wrth feddwl am y fath foroedd o chwisgi'.³⁶ Diau mai mawr oedd eu siom, hefyd, pan ddywedodd Jarvis nad oedd yntau erioed wedi gweld W.O. wedi meddwi. Ond beth am y sgysiau 'amhur' efo Mr Taylor? Yn ôl y capten, byddent yn sgwsio am y lleoedd 'afan' y byddent wedi ymweld â hwy mewn gwahanol borthladdoedd ac, iddo ef, roedd hynny'n awgrymu eu bod wedi cyflawni 'gweithredoedd llygredig' yn y llefydd hynny.

Wrth gwrs, yr oedd W.O. Jones yn gwadu'r cyfan yma, a llwyddodd i gael affidafid, sef, datganiad dan lw, gan un o'r stiwardiaid oedd ar y llong. Meddai hwnnw:

The rev. gentleman had a small glass of whiskey before retiring about 10.30 p.m. and no more during the day . . . a dozen small bottles of *claret* were brought on board, and he and the other passenger had a bottle between them for dinner. The Revd. W.O. Jones was never under the influence of drink during the whole voyage. . .³⁷

Fe gafwyd datganiadau digon tebyg gan fêt cyntaf ac ail fêt y llong, ynghyd â'r cyd-deithiwr, Bernard Taylor.

Ac yntau heb fod yn un o'r wyth eisteddiad a gafwyd hyd yma i wrando ar y dystiolaeth, o'r diwedd gwahoddwyd W.O. i mewn ar 28 Mehefin 1900 a darllenwyd y tystiolaethau iddo. Yn yr eisteddiad nesaf, bu'n trafod yr hyn a ddywedwyd, ac yn ei amddiffyn ei hun, ac yn yr eisteddiad nesaf wedyn, darllenwyd iddo dystiolaeth ysgrifenedig Capten Jarvis, y morwynion yn ei lety, a John Jones, Sefton, i gyd yn ymwneud â'i sobrwydd. Dywedodd, mewn ymateb, y byddai'n rhaid iddo gael holi'r bobl hyn wyneb yn wyneb, ac yr oedd yn amlwg erbyn hyn fod W.O. yn synhwyro y byddai ganddo achos cryf o enllib yn eu herbyn fel tystion. Oherwydd eu bod hwythau'n

synhwyrô'r un peth, gwrthododd y pwyllgor ganiatáu'r croesholi, na chais pellach W.O. i gael ysgrifennydd llaw-fer i mewn i gofnodi'r gweithrediadau. Ymateb W.O. i hynny oedd dweud na allai gydweithredu ymhellach â'r pwyllgor.³⁸

Penderfynodd y pwyllgor, felly, ddirwyn yr achos i ben, ac ar 11 Gorffennaf 1900 cyflwynodd ei adroddiad i'r cyfarfod misol, a dweud:

. . . ein bod yn cael ein gorfodi i gredu fod y Parch. W. O. Jones, B.A., wedi bod yn euog, ar amryw droion, o ymddygiadau sydd yn ei anghymwyso i fod yn weinidog yr efengyl, ac felly yr ydym yn dyfod i'r penderfyniad na ddylai fod o gwbl yn y fath swydd bwysig yn ein mysg.

Pan ddaeth y mater i bleidlais, dim ond un oedd yn erbyn derbyn yr adroddiad, ac wedi i W.O. a thri o'i gefnogwyr adael, cyhoeddwyd ei fod yn awr wedi ei ddiarddel.

Y cam nesaf oedd i'r dyfarniad fynd i'r gymdeithasfa ym Mhwillheli ar 22 Awst. Yno, wedi trafodaeth, cadarnhawyd penderfyniad y cyfarfod misol, a chyhoeddwyd bod y gymdeithasfa:

yn ymwrthod yn [gyfan] gwbl â Mr. William Owen Jones, B.A., fel pregethwr a gweinidog yn ein Cyfundeb . . .

Penderfynodd W.O. apelio yn erbyn y dyfarniad, ac i ennyn cefnogaeth iddo'i hun, dechreuodd erthyglau yn esbonio'i safbwynt ymddangos yn *Y Cymro* ym mis Hydref 1900. Mynegwyd anesmwythdra ei eglwys hefyd pan brotestiodd dros 250 o aelodau yn erbyn dyfarniad y cyfarfod misol. Yna, ar 12 Ionawr 1901, cyfarfu tua 700 o frodyr yn Lerpwl, a phenderfynu ffurfio Pwyllgor Amddiffynnol. Ymunodd hen eglwys W.O. yn y Waunfawr yn y protestio gan ddatgan 'fod lle i ofni fod y dull y carwyd yr ymchwiliad allan wedi arwain i anghyfiawnder'. Ymunodd tair o eglwysi Lerpwl a Phenbedw hefyd i fynegi eu hanfodlonrwydd, a dechreuodd deisebau gael eu trefnu mewn ymgais i gael y gymdeithasfa i ailagor yr achos.

Trosglwyddodd W.O. y mater i ddwylo cyfreithwyr, ac anfonwyd llythyr ganddynt at y cyfarfod misol yn awgrymu'n gryf ei fod wedi gweithredu'n

anghyfreithlon ac yn groes i egwyddorion cyfiawnder naturiol. Hefyd, ar ddechrau Ionawr 1901, trefnodd y pwyllgor amddiffynnol gyfarfod cyhoeddus yn neuadd y dref, Pwllheli, ac yn fuan wedyn un arall ym mhafiliwn Caernarfon.

Ystyriwyd apêl W.O. yng nghymdeithasfa Bae Colwyn ar 23 Ebrill 1901 ac, wrth gwrs, penodwyd pwyllgor; tri gweinidog a phedwar lleygwr. At hynny, yr oedd henaduriaeth Lerpwl i gael tri sylwedydd, a W.O. dri arall, ac yr oedd ysgrifennydd llaw-fer i gofnodi'r gweithrediadau. Dechreuodd y pwyllgor ar ei waith yn festri Princes Road ar 28 Mai, a chafwyd 15 eisteddiad ac 89 o dystion, 43 ohonynt o eglwys Chatham Street. O'r dechrau, yr oedd W.O. yn bur obeithiol am y canlyniad, hyd nes i dystiolaeth newydd ymddangos am fordaith y *Vito*.

Yn dilyn ymholiadau gan John Jones, Sefton, yr oedd y stiward, mêt cyntaf ac ail fêt y *Vito*, am ryw reswm dirgel wedi newid eu stori, a bellach yn gwadu gwirionedd eu datganiadau cyntaf. Eu honiad yn awr oedd bod W. O. Jones wedi ei ddal gan y capten mewn *house of ill fame* yn Marseilles, a'i fod hefyd wedi ymweld â sefydliad tebyg yn Valencia. Er mor amheus y dystiolaeth hon gan dri na wŷr neb beth oedd wedi ei addo iddynt, ac oedd yn cydnabod eu bod eisoes wedi dweud celwydd, cred cefnogwyr W. O. Jones oedd mai'r dystiolaeth hon oedd yr ergyd a ddinistriodd unrhyw obaith iddo am chwarae teg.

Cyflwynodd y pwyllgor apêl ei adroddiad yng nghymdeithasfa Croesoswallt ar 26 Mehefin 1901. Mewn sesiwn gaeedig, heb neb o'r cyhoedd na'r wasg, na hyd yn oed W.O. ei hun yn bresennol, darllenwyd y dyfarniad. Dywedwyd fod y pwyllgor o'r farn nad oedd W.O. Jones bob amser yn dweud y gwir; ei fod wedi mynd i gyfarfodydd ei eglwys ag arogl diod feddwol arno, ond nad oedd sail i haeru ei fod dan ddylanwad y diodydd hynny; ei fod yn yfed diodydd meddwol er yn honni bod yn llwrymwrthodwr, ac yn achlysurol yn meddwi; a'i fod yn euog o 'ymddiddanion anweddaidd ac anllad' ac 'ar adegau wedi bod yn byw bywyd anniwair'.³⁹

Canlyniad y bleidlais a ddilynodd yr adroddiad hwn oedd bod diswyddiad W. O. Jones wedi ei gadarnhau. Ac nid yn unig hynny; mewn

gweithred ddialgar ddiangen, penderfynwyd diarddel W.O. fel aelod o eglwys Chatham Street hefyd. Fel gweinidog ac fel aelod, nid oedd iddo le bellach ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd.

Ac eto, credai llawer ei fod yn ddieuog. Felly, deuddydd wedi'r bleidlais cynhaliodd y pwyllgor amddiffynol gyfarfod i ystyried y cam nesaf. Penderfynwyd cynnal cyfarfod eto ymhen pum diwrnod, ac ar 2 Gorffennaf 1901 daeth 160 o bobl at ei gilydd a phenderfynu torri'r cysylltiad â chyfundebydd y Methodistiaid Calfinaidd, chwilio am le newydd i addoli a gwahodd W. O. Jones i wasanaethu yno.

Ac felly, ar ddydd Sul, 14 Gorffennaf 1901, cynhaliwyd yr oedfaon cyntaf yn Hope Hall, adeilad nepell o eglwys gadeiriol Lerpwl oedd yn dal tua phymtheg cant; cafwyd cyfarfod gweddi yn y bore gyda thros 500 yn bresennol, ac oedfa yn yr hwyr gyda W.O. yn pregethu i gynulleidfa o dros 2,000.⁴⁰ Bythefnos yn ddiweddarach, gyda 650 wedi mynegi eu parodrwydd i ymaelodi ag eglwys newydd, corfforwyd yr eglwys honno yn oedfa'r hwyr gyda'r aelodau newydd yn sefyll ar eu traed tra yr oedd W.O. yn gweddïo. Yn dilyn cynnig gan William Roberts o Bootle y dylid estyn galwad i W. O. Jones i'w bugeilio, pasiwyd yn unfrydol i wneud hynny.

Aethpwyd ati ar unwaith wedyn i sefydlu ysgolion Sul mewn amrywiol ardaloedd, ac erbyn diwedd Awst yr oedd ganddynt chwech ohonynt, a channoedd o ddisgyblion. Prin y gallai un dyn oruchwylio'r gweithgarwch hwn i gyd, ac felly penderfynwyd mynd ati yn ddiymdroi i chwilio am weinidog ychwanegol i gynorthwyo W.O..

A dyma gyrraedd 4 Medi 1901. Mewn seiat yn Hope Hall gyda 500 o bobl yn bresennol, penderfynwyd mabwysiadu'r enw 'Eglwys Rydd y Cymry'. Nid oedd cyffes ffydd eto, ond cafwyd datganiad ar nos Sul, 22 Medi, yn gyntaf yn condemnio ysbryd trahaus y Methodistiaid Calfinaidd a'u gweinidogion, ac yn sefydlu 'cyfundebydd crefyddol newydd, ehangach ei ryddid, a mwy democrataidd ei nodweddion'. Yr oedd i fod yn genhadol ei ysbryd, yn cefnogi cyfiawnder cymdeithasol, a'i weinidogion a'i flaenoriaid yn cael eu hethol am dymor, er y gellid eu haillethol pe dymunid. Byddai i'r cyfundebydd newydd lys canolog, ac o ran cred, 'ar bob pwnc hanfodol i Gristionogaeth,' meddid, 'yr ydym yn glynu yn ddiysgog wrth y ffydd a

gyfrifir yn uniawngred.⁴¹ Erbyn hyn, diwedd mis Medi 1901, yr oedd gan Eglwys Rydd y Cymry saith ysgol Sul a thros fil o aelodau.

Ar 1 Rhagfyr 1901, daeth Noah Bevan i gynorthwyo W.O. yn y gwaith fel gweinidog, ac wedi hynny Lewis Hughes ar 6 Mawrth 1902 a David Davies ar 25 Hydref 1903. Ond yn ogystal â gweinidogion, yr oedd angen mannau newydd i bobl addoli ynddynt, yn hytrach na gorfod teithio i oedfeun yn Hope Hall. A dyna gafwyd; erbyn mis Gorffennaf 1904, yr oedd gan yr Eglwys Rydd saith eglwys, pedwar capel, naw ysgol Sul a phedwar gweinidog.⁴² Yr oedd ganddi hefyd gylchgrawn, sef *Llais Rhyddid*, a W.O. yn olygydd iddo hyd 1903 pryd y daeth William Albert Lewis i fod yn gyd-olygydd ag ef. Fe gyhoeddwyd y *Llais* yn fisol o 1902 hyd 1912 ac yn chwarterol wedyn hyd ei rifyn olaf ym 1920.⁴³

Cyfnod byr o lwyddiant gafwyd. Yn ôl y Dr Thomas Richards, llyfrgellydd Prifysgol Bangor, oedd yn athro yn Bootle ar yr union adeg yr oedd yr helynt yn digwydd, y prif reswm am hynny oedd nad oedd yng Nghymru enwad, eglwys na mudiad fyddai'n gallu cefnogi'r Eglwys Rydd a darparu llif cyson o aelodau newydd iddi wrth i'r blynyddoedd fynd heibio.⁴⁴ Brwydr leol iawn oedd hon wedi bod,⁴⁵ a daeth yn amlwg yn ail ddegawd yr ugeinfed ganrif mai edwino yr oedd yr eglwys newydd. Erbyn mis Chwefror 1920 yr oedd yn trafod y posibilrwydd o uno â Chwedd Chwarter Annibynwyr Lerpwl a'r Cylch, a digwyddodd hynny ym 1921. Treuliodd W.O. Jones weddill ei ddyddiau yn weinidog uchel ei barch ar eglwysi Annibynnol Merton Road, Bootle, a Canning Street, Lerpwl, a bu farw, fel y dywedwyd ar y dechrau, ar 14 Mai 1937 yn 76 oed a'i gladdu ym mynwent Anfield bedwar diwrnod yn ddiweddarach.

I gloi, beth a wnawn ni o stori fel hon? Mae Tudur Jones yn ei asesiad o'r hanes yn nodi tri pheth. Yn gyntaf, fod y cyfarfod misol a'i bwyllgor ymchwil wedi gwneud yr un camgymeriad â chymaint o lysoedd eglwysig eraill yn y gorffennol, sef derbyn cyhuddiadau yn erbyn rhywun, casglu tystiolaeth, a disgwyl i'r cyhuddedig brofi ei hun yn ddieuog. Wrth gwrs, yn ôl safonau cyfiawnder naturiol, mae troseddwr i fod yn ddieuog hyd nes y profir yr achos yn ei erbyn. Dyna un rheswm pam yr aeth pethau'n flêr.

Yn ail, yn ôl Tudur Jones, ni ddylid meddwl mai unig fwriad y cyfarfod

misol a'r pwyllgorau ymchwil oedd dinistrio gyrfa W. O. Jones, er bod dau yn y stori, yn ôl W.O. ei hun, fel pe byddent yn dymuno gwneud hynny, a'r ddau oedd John Jones, Sefton, a John Williams, Princes Road.⁴⁶ Yr hyn oedd yn eu drysu oedd bod dirwest wedi datblygu'n rhyw fath o obsesiwn ym meddyliau rhai pobl, ac er bod W.O. wedi cyfaddef mewn erthygl yn *Y Cymro* nad oedd yn llwrymwrthodwr,⁴⁷ yr oedd y cyhuddiad wedi pwyso'n drwm yn ei erbyn am fod cymaint yn ystyried fod dirwest yn golygu llwrymwrthod yn hytrach na chymedroldeb.

Yn drydydd, medd Tudur Jones, digwyddodd y ffrae hon ar adeg pan yr oedd newid yn digwydd yn y gymdeithas ehangach. Yn y gorffennol, roedd y werin wedi gwybod ei lle, ac wedi plygu i farn a phenderfyniad y rhai oedd mewn awdurdod. Ond bellach, yr oedd democratiaeth ar gynnydd, a phobl gyffredin yn dod i sylweddoli fod ganddynt hwythau eu barn. Ac yr oeddent am ymarfer eu hawl i ffurfio'r farn honno. Blinder iddynt oedd bod cyfarfod misol Lerpwl a'r gymdeithasfa mor gyndyn i rannu'r dystiolaeth yn achos W.O. am eu bod ofn y gallai fynd â'i achos i'r llysoedd gwladol. A dyna yn union a wnaeth ym 1902 gyda dau weinidog; Owen Eilian Owen, Lerpwl,⁴⁸ a Thomas Gwynedd Roberts, Conwy. Cyhuddodd W.O. y ddau o enllib, mynd â hwy i gyfraith, ac ennill. O fewn tri mis yr oedd Owen Eilian Owen yn llys methdalwyr Lerpwl gyda dyled o £162, sef yr iawndal a'r costau o achos W.O. Jones – £16,000 yn ein harian ni heddiw.

At y casgliadau hyn o eiddo Tudur Jones, fe hoffwn ychwanegu un ffactor arall a gyfrannodd at yr helynt, sef y gystadleuaeth rhwng eglwysi Princes Road a Chatham Street, y ddwy o fewn taith gerdded o tua 20 munud i'w gilydd. Dau gapel newydd sbon, a'r ddau yn grand; capel Chatham Street wedi ei agor ym mis Hydref 1861, a Princes Road ym mis Mawrth 1868. Ond capel Princes Road oedd i fod yn flaenaf, gyda'i dŵr mawreddog, y strwythur uchaf yn Lerpwl ar y pryd, a'i ffenestri lliw. Ond adeilad plaen oedd o ran ei edrychiad o'r tu allan, tra yr oedd Chatham Street gryn dipyn yn grandiach. Anodd meddwl nad oedd rhywun yn Princes Road wedi meddwl fod yr helynt o gwmpas W. O. Jones yn gyfle da i dorri crib eglwys Chatham Street. A pe byddai John Williams, gweinidog Princes Road, wedi bod yn ddoethach dyn, byddai wedi cadw ei hun a'i eglwys allan o'r helynt.

Ond, os cofiwch, gyda'i gynffon rhwng ei goesau y gadawodd John Williams gapel Chatham Street wedi iddo fod yno gyda'r Dr Hugh Jones ar 1 Ebrill 1900 i hysbysu'r eglwys fod eu gweinidog yn ymddiswyddo, a W.O. Jones wedi gwrthod gwneud hynny. Yn ôl yr hanes, ei eiriau wrth adael oedd 'y byddai yr eglwys a'r gweinidog yn edifarhau oherwydd yr hyn a wnaed', ac nid un i wneud gelyn ohono oedd John Williams.

A dyna'r stori, neu o leiaf grynodedb ohoni. Os bu i chi gael blas o'i chlywed, ni allaf ond eich annog i ddod o hyd i gopi o gyfrol gyntaf *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, R. Tudur Jones, a throï i dudalen 210 a dechrau darllen. O fewn munudau, fe fyddwch yn ôl yn Lerpwl y 1890au, ac yn llygad dyst i helynt Eglwys Rydd y Cymry.

Troednodiadau

- ¹ R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl* (Gwasg John Penry, Abertawe, 1981), tt. 210-246.
- ² Cafodd Lerpwl statws dinas gan y Frenhines Fictoria ym 1880.
- ³ www.thehistorypress.co.uk
- ⁴ Gweler ymatebion Cyfrifiad 1881, lle ceir trigolion Penbryn nesaf at rai tŷ capel Pencoed.
- ⁵ Rhaid diolch i John Dilwyn Williams am ei gymorth yn cadarnhau mai mab Pen-bryn, Pencoed, oedd W.O. Jones.
- ⁶ *Y Genedl Gymreig*, 3 Gorffennaf 1879, t. 7.
- ⁷ Yr oedd dau was yn cynorthwyo yno. Daw hyn o ymatebion Cyfrifiad 1871. John Williams a Humphrey Davies oedd enwau'r gweision.
- ⁸ T. Ceiri Griffith, *Achau rhai o Deuluoedd Hen Siroedd Caernarfon, Meirionnydd a Threfaldwyn* (Y Lolfa, Talybont; Argraffiad newydd helaethach, 2012), t. 111, Tabl 98. Bu farw ar 11 1878.
- ⁹ *Ibid.* Bu farw 18 Mehefin 1879.
- ¹⁰ *Ibid.*, ond sylwer ar y llithriad ym mlwyddyn ei marwolaeth. 1885 a nodir, ond 25 oed oedd Sydney pan fu farw ac fe'i ganwyd ym 1858. Cadarnheir 1883 fel blwyddyn ei marwolaeth yn *Y Goleuad*, 3 Tachwedd 1883, yn adroddiad Cyfarfod Misol Llyn ac Eifionydd a gynhaliwyd yn Salem, Pwllheli, 29-30 Hydref 1883, lle y penderfynwyd 'anfon llythyr yn datgan ein cydymdeimlad â'r Parch W.O. Jones, Penbryn, a'i fam, yn ei [*sic*] profedigaeth chwerw.' Bu farw ar 18 Hydref 1883.
- ¹¹ T. Ceiri Griffith, *op. cit.*, t. 111, Tabl 98. Bu farw ar 13 Ionawr 1900.
- ¹² *Ibid.* Bu farw ar 25 Mai 1909. Yn ôl y papur Gwalia, 31 Mai 1909, t. 3, 'Collodd Mr a Mrs Williams fab yn yr America ychydig o wythnosau yn ôl.' Gw. hefyd, t. 111, Tabl 98. Ganwyd William Edward Williams JP, ei gŵr, ym 1861 a bu farw ar 6 Chwefror 1923 yn 63 oed.
- ¹³ *Y Werin*, 24 Mai 1890, t. 3.
- ¹⁴ *Y Genedl Gymreig*, 28 Mai 1890, t. 3.
- ¹⁵ *Baner ac Amserau Cymru*, 2 Medi 1891, t. 13.

- ¹⁶ *Y Cymro*, 26 Mai 1892, t. 7.
- ¹⁷ Sef 1893. Gw., John Hughes Morris, *Hanes Methodistiaeth Liverpool* (Liverpool, 1932), Cyf. II, t. 57.
- ¹⁸ *Y Cymro*, 18 Mai 1893, t. 7. Sylwer mai ym 1893 yn digwyddodd hyn, nid yn 1895, fel yn R. Tudur Jones, *op. cit.*, t. 211
- ¹⁹ Am Eliezer Pugh, gw. D. Ben Rees, *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl* (Y Lolfa, 2019), t. 60, 65, 94, 168. O Ddolgellau y deuai yn wreiddiol. Hefyd, John Hughes Morris, *op. cit.*, Cyf. II, t. 85-86.
- ²⁰ Am Mary Pugh a'i gwaith dyngarol ymhlith merched Lerpwl, gw. D. Ben Rees, *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl* (Y Lolfa, 2019), t. 60-61.
- ²¹ John Hughes Morris, *op. cit.*, Cyf II, t. 85-86.
- ²² *Y Goleuad*, 24 Mawrth 1897, t. 4.
- ²³ Tŷ oedd 'Sefton', ar Nant Park Avenue, Prestatyn. Gw. *Y Goleuad*, 26 Medi 1902, t. 12.
- ²⁴ R. Tudur Jones, *op. cit.*, t. 212.
- ²⁵ R. Tudur Jones, *op. cit.*, t. 213.
- ²⁶ R. Tudur Jones, *op. cit.*, t. 214.
- ²⁷ R. Tudur Jones, *op. cit.*, t. 215.
- ²⁸ D. Ben Rees, *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl*, tt. 78, 130.
- ²⁹ Dechreuodd ei weinidogaeth yn Netherfield Road yn Ionawr 1872. John Hughes Morris, *op. cit.*, Cyf. I, t. 366.
- ³⁰ R. Tudur Jones, *op. cit.*, t. 216.
- ³¹ *Ibid.*
- ³² *Ibid.*, t. 220.
- ³³ *Ibid.*, t. 221.
- ³⁴ *Ibid.*, t. 223.
- ³⁵ *Ibid.*, t. 223-4.
- ³⁶ *Ibid.*, t. 226.
- ³⁷ *Ibid.*
- ³⁸ *Ibid.*, t. 228.
- ³⁹ *Ibid.*, t. 232.

- ⁴⁰ *Ibid.*, t. 235.
- ⁴¹ *Ibid.*, t. 236.
- ⁴² Hope Hall (1901); Canning Street, Lerpwl; Garmoyle Road (Ebrill 1903); Merton Road, Bootle (Mai 1903); Donaldson Road, Lerpwl (Mehefin 1903); Claughton Road, Penbedw (Awst 1903).
- ⁴³ Catalog Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
- ⁴⁴ R. Tudur Jones, *op. cit.*, t. 241.
- ⁴⁵ *Ibid.*, t. 238. Gwnaed ymdrech ym 1902 i sefydlu cangen yng Nghaernarfon (Cysegr), ond gwan iawn oedd yr achos hwnnw.
- ⁴⁶ *Ibid.*, t. 233.
- ⁴⁷ *Ibid.*, t. 227-8. Dywedodd W.O. Jones hyn yn ei apoleg gyhoeddus yn *Y Cymro*, 18 Hydref 1900.
- ⁴⁸ Dyfarnwyd gan y llys ar 30 Ebrill 1902 y dylai O. Eilian Owen dalu £50 i W.O. Jones fel iawndal. Golygodd hynny iddo orfod mynd i'r Llys Methdaliad ar 3 Gorffennaf 1902. *Y Cymro*, 11 Rhagfyr 1902, t. 5.

Seiat Llanberis

John Pritchard

Nid pawb fu mewn cyfarfod gweddi mewn tŷ ar ganol ei godi. Ac nid pawb fyddai'n cydnabod iddynt fod yno heb ganiatâd! Ond y cyfarfod hwnnw ym mis Awst 1975 oedd un o'r rhai a arweiniodd at genhadaeth arbennig yn Llanberis am yn agos i bedair blynedd, hyd at ddiwedd Mawrth 1979. O fis Mawrth 1977 ymlaen, cynhaliwyd 'Seiat Llanberis' yn festri Capel Nant Padarn yr Annibynwyr. Nid gweithgaredd yr eglwys honno na'r un eglwys arall ydoedd; ond mae'n werth adrodd peth o'r hanes cyn i safle'r hen gapel gael ei werthu.

Nid fy stori i yw hon. Rhan ydi hi o stori ymwneud Duw â chenhedlaeth o Gristnogion ifainc Cymraeg yn 70au'r ganrif ddiwethaf. Ond gan i mi gael y fraint o fod yng nghanol y gweithgaredd yn fy mhentref genedigol, goddefwch elfen hunangofiannol y cofnod hwn. Erbyn haf 1975 a diwedd f'ail flwyddyn yn y brifysgol ym Mangor, roeddwn wedi dod i ffydd yng Nghrist, ac wedi dechrau pregethu. Yno, roeddwn yn rhan o gymdeithas Gristnogol gref y myfyrwyr a ddarparai, nid yn unig astudiaeth Feiblaidd wythnosol a chyfle i drafod y ffydd yng 'Nghyfarfod Bala-Bangor' bob nos Sul, ond hefyd ddau gyfarfod gweddi dyddiol o fore Llun i fore Sadwrn. Cawsai'r cyfarfod nos Sul ei gynnal ers blynnyddoedd; ond ffrwyth y fendith a brofwyd ymhlith myfyrwyr Bangor ddechrau'r saithdegau oedd yr astudiaethau Beiblaidd, a'r cyfarfodydd gweddi amser brecwast ac amser cinio yn Neuadd John Morris Jones, a agorwyd yn 1974. Roedd y cyfan yn rhan o fendith ehangach a ddaeth â phobl ifainc mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru i ffydd bersonol yn Iesu Grist.

Hawdd iawn oedd teimlo'n unig o gael ein hamddifadu o gymdeithas o'r fath yn ystod gwyliau coleg. Dyna a barodd i mi'r haf hwnnw wahodd tri o ffrindiau o Lanberis i weddio ac astudio'r Beibl. Roedd dau ohonynt yn rhan o gymdeithas Gristnogol y Coleg Normal ym Mangor ar y pryd.

Cyfarfodydd anffurfiol oedd y rhain, gydag un ohonynt yn yr awyr agored, ar lan Llyn Padarn. Roedd un arall mewn man annisgwyl – tŷ ar ganol ei godi, cyn bod ystyriaethau iechyd a diogelwch yn mynnu bod safleoedd adeiladu'n cael eu cloi dros nos! O bosib bod hanesion am oedfaon mewn beudai ac ati wedi awgrymu i ni'r syniad o gyfarfod mewn lle felly, ond buan y gwawriodd arnom nad oedd tresmasu'n gydnaws â chyfarfod gweddi! Aethon ni ddim yn ôl yno, er i mi flynyddoedd yn ddiweddarach fynd i'r union dŷ i ymweld ag aelodau wedi i mi ddychwelyd i Lanberis yn weinidog. Cafwyd cyfarfod bob wythnos y mis Awst hwnnw, gyda'r ddau neu dri olaf yn ddigon cyfreithlon mewn cartrefi! Erbyn canol Medi, roeddem yn cyfarfod yn festri Nant Padarn; ond cawsom wahoddiad gan y Parchg W. O. Roberts, a oedd yn weinidog gyda'r Presbyteriaid yn Llanrug, i ni gydgyfarfod ag ef ac aelodau ei seiat, a oedd yn cynnwys rhai cyfoedion i ni. Cafwyd un cyfarfod yn ei gartref ac un arall yng nghapel Pontrhythallt (Capel y Rhos, Llanrug erbyn hyn).

Aeth blwyddyn gogleol heibio cyn i ni ailddechrau'r cyfarfodydd ym mis Gorffennaf 1976, am yn ail nos Fercher ym Mhontrhythallt a festri capel Gorffwysfâr Presbyteriaid yn Lanberis. Erbyn hynny, roedd cyfeillion o'r tu allan i'r ddau bentref wedi ymuno â ni, y mwyafrif yn fyfyrwyr gartref o'r coleg yn awyddus i fwynhau cymdeithas dros gyfnod y gwyliau. Yn eu plith yr oedd tri o'm ffrindiau o Fangor: John Glyn Jones, Robert Roberts a John Roberts. Buan y gwelodd y pedwar ohonom angen am strwythur cadarn i'r gwaith er mwyn ceisio gwireddu dau nod amlwg: darparu cymdeithas i'n cyd-gredinwyr a chyhoeddi'r newydd da am Iesu Grist o fewn y gymdogaeth. Roedd sicrhau tystiolaeth ffyddlon i'r Efengyl yn holl bwysig yn ein golwg; a phenderfynwyd gwahodd gweinidogion cyfarwydd i'n cynorthwyo trwy arwain rhai o'r cyfarfodydd. Mae'n debyg mai dyma pryd y dechreuwyd cyfeirio at y cyfarfodydd fel 'Seiat Llanberis'.

Awgrymwyd y dylwn i arwain y gwaith am mai fi oedd yn byw yn lleol. Byddai'n amlwg yn haws i mi drefnu'r cyfarfodydd. Cafwyd yr oedfa gyntaf dan y drefn newydd o fewn yr wythnos, a lluniwyd posterï lliwgar ar siâp pysgodyn i'w hysbysebu'n lleol. Roedd y posterï'n amlwg wedi eu seilio ar

un o'r symbolau a fabwysiadwyd gan y Cristnogion cynnar. Mae 'ichthus', y gair Groeg am bysgodyn, yn acronym o'r geiriau, 'Iesu Grist, Fab Duw, Gwaredwr', ac roedd hynny'n sicr yn crynhoi ein cred ninnau.

Y Parchg Emyr Roberts, Y Rhyl, ddaeth atom i'r oedfa gyntaf honno ar 22 Gorffennaf 1976, ddyddiau'n unig wedi iddo gael ei wahodd. Daeth atom drachefn ym mis Medi, a sawl gwaith wedi hynny. Wedi ei fagu yng Nghwm-y-glo, roedd wrth ei fodd o weld y fath weithgaredd yn ei fro enedigol. Roeddem ninnau wrth ein bodd dan ei weinidogaeth, nid yn unig oherwydd ei bregethu clir a chadarn o'r Efengyl ond am fod ei acen mor gyfarwydd i ni, a'i holl osgo a'i bersonoliaeth mor ddeniadol.

Cafwyd cyfarfodydd wythnosol trwy'r haf, ac erbyn diwedd mis Medi gwelwyd angen i barhau'r gwaith gan nad myfyrwyr yn unig a ddeuai atom erbyn hynny. Dyma pryd y penderfynwyd y byddai'n fwy ymarferol eu cynnal yn Llanberis yn unig o hynny ymlaen. Un o nosweithiau cofiadwy'r hydref hwnnw oedd nos Fercher, 18 Tachwedd. Draw ym Mangor, roedd dros gant o fyfyrwyr Cymraeg wedi meddiannu Prif Adeilad y Celfyddydau fel rhan o brotest, a bu raid i ddau neu dri ohonom adael yr adeilad trwy ffenestr er mwyn cadw'r seiat yn Llanberis, cyn ailymuno â'r 'meddiannu' wedyn.

Am ryw reswm, ni chynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Ionawr a Chwefror 1977, ond ailddechreuwyd ym mis Mawrth, yn festri Nant Padarn y tro hwn. Dros y flwyddyn ddilynol, aed yn ôl at yr arfer o gynnal y seiat yn bennaf yn ystod y gwyliau coleg; ond gan mor braf oedd hi ar fyfyrwyr y cyfnod, cafwyd o leiaf chwe mis o gyfarfodydd wythnosol yn ystod y flwyddyn ganlynol. Ddydd olaf Awst, aeth nifer ohonom am dro i gopa'r Wyddfa gan frysio nôl erbyn yr oedfa, ond does wybod sut wrandawriad gafodd Densil Morgan y noson honno!

Ond o ddechrau mis Mawrth 1978 hyd ddiwedd mis Mawrth 1979 cynhaliwyd y cyfarfodydd yn ddi-dor, bob pythefnos hyd ddiwedd mis Mehefin ac yn wythnosol wedi hynny. Dyma o bosib y cyfnod prysuraf a mwyaf llewyrchus. Cyhoeddwyd y cyfarfodydd yn oedfaon eglwysi Llanberis ar y Sul, a deuai amryw o aelodau'r eglwysi atom yn gyson. Ond deuai'r mwyafrif o'r tu allan i'r pentref; o bentrefi cyfagos fel Llanrug a

Phenisa'r-waun, ond hefyd o Ddyffryn Nantlle, Caernarfon, Bangor, Môn a mannau eraill.

O bosib bod yr enw 'Seiat' yn gamarweiniol. Gan fod cyfarfodydd gweddi agored, byrfyfyr yn ddieithr i amryw a ddeuai atom, yr oeddem er mis Mawrth 1977 wedi penderfynu mai oedfa draddodiadol a phregeth fyddai mwyafrif y cyfarfodydd. Arweiniwyd y rhain gan gyfuniad o weinidogion o bob rhan o ogledd Cymru a ninnau ein hunain a chyd-fyfyrwyr i ni ym Mangor. Ymhlith y gweinidogion oedd Irvon Parry, Ifan Mason Davies, Ioan Davies, T. R. Jones, Gwilym Roberts, Meurig Thomas, Geraint Morgan, J. Elwyn Davies a John West. Ac ymhlith y myfyrwyr, Dei Rees Roberts, Densil Morgan, Dewi Tudur Lewis, John Morris, Meirion Thomas, Arfon Wyn, Arfon Jones, John Glyn, Robert Roberts, John Roberts a minnau. O fewn dwy neu dair blynedd byddai mwyafrif y myfyrwyr hyn wedi eu hordeinio'n weinidogion yr Efengyl.

Daliem er hynny i gynnal ambell gyfarfod gweddi ac astudiaeth Feiblaidd, yn cynnwys yr un oedd i'w gynnal ganol mis Awst 1978. O bosib ein bod yn disgwyl cynulleidfa lai nag arfer y noson honno. Ond o weld maint y gynulleidfa penderfynwyd y byddai raid i un ohonom bregethu! Ar Robert y disgynnodd y coelbren a'r cyfrifoldeb o wneud hynny'n ddirybudd.

Ar anterth y gwaith, deuai hyd at 70 o bobl i'r oedfaon, a chyfran helaeth ohonynt yn bobl ifainc yn eu hugeiniau cynnar. Yn amlwg, roedd gwerthfawrogiad o'r pregethu ffyddlon a'r gymdeithas gynnes; a daeth Llanberis yn gyrchfan boblogaidd ar nos Fercher nid yn unig i'r Cristnogion ifainc hynny ond hefyd i rai hŷn a oedd yn mwynhau'r gymdeithas a'r cyfle i glywed ambell i bregethwr na fyddent o bosib yn ei glywed fel arall. Ond er y llewyrch a'r cynnydd, roedd dyfodol y gwaith yn ansicr tua diwedd yr haf; a hynny i'w ddisgwyl o gofio mai myfyrwyr yn dod at ddiwedd eu cyrsiau oedd yr arweinwyr ac amryw o'u cyd-addolwyr.

Roedd fy nyfodol i fy hun yn ansicr. Roeddwn wedi dechrau pregethu ym mis Chwefror 1975 ac wedi ymdeimlo â galwad i fod yn weinidog. Ar derfyn fy nghwrs yn y Brifysgol yn haf 1976, euthum i Goleg Bala-Bangor. Ond er i mi gael fy nerbyn yn ymgeisydd am y weinidogaeth gyda'r Annibynwyr, roeddwn ymhell o fod yn sicr o lwybr Duw ar fy nghyfer.

Roedd yr amheuon yn ddeublyg. A oedd Duw yn fy ngalw mewn gwirionedd? Cyn mynd i Fangor, doedd gen i'r un bwriad o fod yn weinidog, ac am ran helaethaf y ddwy flynedd a dreuliais ym Mala-Bangor roeddwn yn ofni mai wedi fy ngwthio i'r llwybr hwnnw gan eraill yr oeddwn. Ac os oedd Duw yn fy ngalw, i ba gyfeiriad yr oedd am i mi fynd? Ac roedd a wnelo'r seiat yn Llanberis â'r ail gwestiwn hwn.

Roeddwn yn amlwg wedi cael blas ar fod ynglŷn ag arwain y gwaith. Dros y pedair blynedd, roeddwn wedi pregethu neu arwain astudiaethau Beiblaidd yn gyson, ac roedd cefnogaeth a gwerthfawrogiad ffyddloniaid y cyfarfodydd yn galonddid. Mi fŵm yn pregethu 'ar brawf' mewn dwy ofalaeth o eglwysi Annibynnol yn ystod fy mlwyddyn olaf yn y coleg. Yn gam neu gymwys, yr oeddwn yn ystod fy nhrafodaethau â hwy wedi amlinellu dau neu dri o bethau y gobeithiwn eu gwneud pe cawn alwad ganddynt. Oherwydd hynny, neu am resymau eraill, ni ddaeth galwad. Roeddwn innau o ganlyniad yn ystyried ai mewn maes arall y dylwn wasanaethu. Roedd y cyfarwydd yn apelio ataf. A oedd Duw, tybed, yn fy ngalw i aros gartref a cheisio swydd a fyddai'n fy ngalluogi i barhau â'r seiat? Mi fyddai modd i mi ymuno â'r busnes teuluol y bŵm yn gweithio ynddo dros wyliau'r coleg ac yn llawn amser, fwy neu lai, wedi gorffen ym Mala-Bangor ddechrau haf 1978.

Yng nghanol yr ansicrwydd hwn, daeth gwahoddiad ddiwedd yr haf i fynd 'ar brawf' i gylch Abersoch. Wedi pregethu yno a thrafod â'r Pwyllgor Bugeiliol, daeth galwad, yn annisgwyl, i fod yn weinidog i'r ofalaeth o bedair eglwys. Roedd tyndra amlwg rhwng mentro i faes newydd a pharhau'r gwaith yn Llanberis. Yn yr union gyfnod hwn, bŵm yn arwain cyfarfod gweddi ac astudiaeth Feiblaidd yng Nghaersalem, Caernarfon. Roedd gweinidog yr eglwys, y Parchg Ioan Davies, ar ymweliad tri mis â Phatagonia ac wedi gofyn i mi ofalu am y cyfarfod yn ei absenoldeb. O bosib bod y profiad o weinidogaethu i'r un gynulleidfa am gyfnod estynedig wedi bod o gymorth i mi benderfynu derbyn yr alwad i Abersoch.

Gwyddwn fodd bynnag y byddai hynny'n golygu diwedd y seiat gan fod y ffrindiau a fu'n trefnu gyda mi eisoes wedi troi i gyfeiriadau eraill. Roedd y ffaith fy mod i gartref yn Llanberis ers gadael y coleg wedi fy ngalluogi i

barhau â'r gwaith. Roedd meddwl am ddod â'r cyfan i ben yn boendod. Gwyddwn y byddai'r rhai a ddeuai atom o eglwysi eraill yn ymdopi. Rhywbeth ychwanegol oedd y seiat iddynt hwy, a'u ffyddlondeb iddi'n arwydd o'u syched am y Gair a chwmni eu cyd-gristnogion o ardal ehangach. Roedd yn drist meddwl y byddai'r ddarpariaeth ar gyfer y bobl a ddeuai atom o eglwysi Llanberis yn dod i ben. Ond roedd y pryder mwyaf ynghylch y nifer cymharol fychan a oedd o bosib wedi dechrau meddwl am y seiat fel eu cartref ysbrydol. Ac felly, yn gymysg â'r cyffro a deimlwn wrth fentro i Abersoch yr oedd y siom a pheth euogrwydd o adael y ffrindiau hyn.

Cynhaliwyd y seiat olaf yn Llanberis nos Fercher, 21 Mawrth 1979. Fel y digwyddai, y Parchg Ddr R Tudur Jones, fy mhrifathro ym Mala-Bangor, oedd yn pregethu. Ymhen yr wythnos, byddai'n arwain fy ngwasanaeth ordeinio yn Abersoch. Bu gyda ni yn y seiat droeon, yn fwy na pharod ei gefnogaeth. Un arall a ddaeth atom droeon oedd y Parchg Ganon John Vévar, Botwnnog y cefais y fraint o fod dan ei weinidogaeth mewn seiat wythnosol tra bûm yn Abersoch.

O fewn deng mlynedd, roeddwn nôl yn Llanberis. Doedd eglwys Nant Padarn ddim yn rhan o'r ofalaeth fro a estynnodd alwad i mi. Ac felly, fûm i ddim yn weinidog o fewn yr adeilad y cefais fy magu ynddo ac a fu'n gartref i'r seiat. Ond ymhen blynnydoedd, deuthum yn weinidog i'r eglwys, wedi iddi benderfynu peidio â chynnal ei hoedfaon ei hun a dod i gydaddoli yng Nghapel Coch y Presbyteriaid, gan ymuno'r un pryd â'r ofalaeth.

Ond er i'r seiat ddod i ben yn Llanberis, nid dyna ddiwedd y stori. Roedd nifer fechan o'r ffyddloniaid yn amlwg yn dyheu am fwy; yn dyheu am glywed yr Efengyl yn cael ei phregethu'n glir a ffyddlon ac yn dyheu hefyd am y math o gymdeithas glos a gafwyd yn y seiat. Pobl ifainc oeddent, y mwyafrif newydd ddarfod eu cwrs coleg ac yn dychwelyd neu'n bwriadu aros yn y cyffiniau. Dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, dyfnhaodd yr hiraeth hwn yn eu plith a dechreusant weddio a thrafod y posibilrwydd o sefydlu eglwys newydd gyda'i gilydd. Daeth yn amlwg fod yr union ddyn i'w harwain eisoes yn eu plith. Bu John Glyn ynglŷn â gwaith y seiat o'r cychwyn. Erbyn mis Hydref 1980, roedd y cwmni bach o gredinwyr, ynghyd

â chriw bychan arall o'r un anian a'r un weledigaeth, o ardal Ardudwy, wedi dod ynghyd i sefydlu dwy eglwys newydd, ac ordeiniwyd John Glyn yn weinidog iddynt.

Ni fynnwn am un eiliad awgrymu bod yr eglwys a sefydlwyd, Eglwys Efengylaidd Gwyrfaï, yn ddilyniant uniongyrchol o'r seiat yn Llanberis. Gweledigaeth John Glyn a'r cwmni bychan mentrus, llawn ffydd oedd sefydlu'r eglwys honno. Ond yn nhrefn rhagluniaeth Duw, yr oedd yr hyn a'i blaenorodd yn rhan fechan o'r darlun cyflawn, petai ond am i'r seiat roi cyfle i'r bobl hyn fod gyda'i gilydd mewn oedfa. Am rai blynyddoedd, bu'r eglwys newydd yn cyfarfod yn festri capel Moreia'r Annibynwyr yn Waunfawr, Caernarfon, cyn iddi brynu capel Tanycoed, un o gapeli'r Presbyteriaid yn Llanrug, sy'n gartref i'r eglwys hyd heddiw.

Ac i gwblhau cylch o fath, cefais innau ymhen blynyddoedd y fraint o wasanaethu'r eglwys. Yn hydref 2009, gwnaed trefniant rhwng yr eglwys a'm gofalaeth i mi ei gwasanaethu dros dro, a hithau erbyn hynny'n ddiweinig. Parhaodd y cytundeb am bedair blynedd ar ddeg hyd at f'ymddeoliad ddiwedd mis Awst 2023. Rwy'n dal i wasanaethu'r eglwys un Sul y mis hyd heddiw. Yn rhyfedd iawn, felly, cefais gyfle wedi'r holl flynyddoedd i fwynhau cymdeithas â rhai o'r bobl a ddeuai i'r seiat.

Wrth gofio'r gweithgaredd arbennig hwn, rwy'n rhyfeddu iddo ddigwydd o gwbl ac iddo bara cyhyd o gofio mai pobl ifainc yn eu hugeiniau cynnar oedd yn ei arwain, yn gwbl annibynnol ar unrhyw eglwys, enwad, mudiad na phwyllgor. Doedd trefnu seiat, oedfa, astudiaeth neu gyfarfod gweddi ddim y peth arferol i bobl ifainc ei wneud bryd hynny, mwy nag mewn unrhyw gyfnod. Ond am i ni brofi gras Duw yn ein bywydau, yr oedd y peth mwyaf naturiol i ni rywsut.

Rwy'n rhyfeddu hefyd o gofio mai oedfaon cwbl draddodiadol a gynhaliem. Y newyddion da am Iesu Grist yn Waredwr oedd wrth wraidd y cyfan. Pregethu'r Efengyl yn Feiblaidd a ffyddlon oedd y nod. Rwy'n dal i ddiolch am y gweinidogion a ddeuai atom i'n helpu i wneud hynny. Roedd eu harweiniad yn werthfawr i ni; ac yr oedd gweld Duw ar waith ymhlith cenhedlaeth iau o Gymry'n galondid iddynt hwythau.

Duw bia'r clod am y gymdeithas a gafwyd a'r fendith a brofwyd. Yn ei law, bu'r seiat yn gynhaliaeth i gredinwyr ifainc a hŷn mewn cyfnod o fendith neilltuol a ddygodd lawer i ffydd achubol yn Iesu Grist. Mae cofio diolchgar am yr hyn a gaed yn ennyn, gobeithio, hiraeth newydd am weld Duw'n cyflawni pethau tebyg o'r newydd.

Bywyd a Diwinyddiaeth Dietrich Bonhoeffer

*Darlith Goffa Dr Pennar Davies a Dr R Tudur Jones a draddodwyd
yn encil gweinidogion yr Annibynwyr 10 Tachwedd 2025, Aberystwyth*

H. Gwilym Tudur

Cyflwyniad

Ar 9 Ebrill 1945, dienyddiwyd y gweinidog a'r diwinydd Almaenaidd Dietrich Bonhoeffer (1906–45) yng ngwersyll crynhoi Flossenbürg am wrthwynebu Hitler a'i gyfundrefn. Yn 2025, er mwyn nodi 80 mlynedd ers yr achlysur, gwnaed nifer o ymdrechion i dalu teyrnged iddo. Yr amlycaf ohonynt oedd ffilm a ryddhawyd o dan y teitl *Bonhoeffer: Pastor. Spy. Assassin* gan y cyfarwyddwr Americanaidd Todd Komarnicki. Fel yr awgryma'r teitl, testun y ffilm oedd cyfraniad Bonhoeffer fel aelod o'r *Abwehr*, mudiad o ysbïwyr a wrthwynebodd y Natsïaid yn ystod y 1930au a'r 1940au.

Er gwaetha'r cyhoeddusrwydd a gafodd y ffilm mewn rhai cylchoedd, roedd ganddi ei gwendidau. Yn ôl rhai arolygwyr, roedd Komarnicki ar fai am iddo beidio â chadw'n ddigon agos at y ffeithiau hanesyddol.¹ Daw hyn yn amlwg o'r portread o Bonhoeffer fel *Pastor. Spy. Assassin*. Er ei fod yn aelod o'r *Abwehr*, anodd yw dod i gasgliad pendant ynglŷn ag union gysylltiad Bonhoeffer â'r cynllun hwnnw i ddienyddio Hitler ar 20 Gorffennaf 1944. Yn wir, mae haneswyr yn parhau i drafod y cwestiwn dyrys hwn heddiw.² Gorsymleiddio os nad camliwio'r hanes yw ei ddisgrifio fel 'assassin'.

Gwendid arall gyda'r ffilm oedd iddi fethu â chysylltu bywyd Bonhoeffer yn ddigonol â'i ddiwinyddiaeth. Yn ôl *The Guardian*, er ei chryfderau fel ffilm gyffro, ni lwyddodd i adlewyrchu 'ysbryd y dyn' gan iddi anghofio mai ei gyfraniad pennaf oedd nid fel ysbïwr ond fel diwinydd Cristnogol.³ Er i Bonhoeffer gyhoeddi nifer o weithiau diwinyddol yn ystod ei oes, nid ydynt yn cael llawer o sylw gan y ffilm. Yn ddi-os, roedd disgrifiad ei gyfaill

Eberhard Bethge ohono fel *Theologian, Christian, Contemporary* yn fwy addas a chynnil nag un Hollywood ohono fel *Pastor. Spy. Assassin*.⁴

Bwriad y ddarlith hon yw talu teyrnged i Bonhoeffer mewn ffordd sy'n osgoi'r cymhlethdodau uchod. Yr amcan yw rhoi portread ohono sy'n driw i'w hanes gan hefyd gymryd ei ddiwinyddiaeth o ddifrif. Gwneir hyn trwy gysylltu helyntion ei fywyd yn uniongyrchol â datblygiad ei ddiwinyddiaeth. Trwy fanylu ar fywyd Bonhoeffer, tynnir sylw'n benodol at bedair elfen sy'n nodweddu ei ddiwinyddiaeth, sef Crist a'r Eglwys, Gras Costus, Moeseg a'r Byd, a Christnogaeth Ddigrefydd. Dim ond trwy ddadansoddi ei athrawiaeth Gristnogol yn ei chyd-destun hanesyddol y gellir gwerthfawrogi ei gyfraniad unigryw fel diwinydd a chymhwyso her ei ddiwinyddiaeth i'n hoes ni heddiw.

Dylanwadau cynnar: Breslau, Berlin a theulu Bonhoeffer

Er mwyn deall datblygiad ei ddiwinyddiaeth, rhaid cychwyn gyda'r dylanwadau cynnar a fu ar Bonhoeffer yn ystod ei fagwraeth. Fe'i ganwyd ar 4 Chwefror 1906 yn ninas Breslau, yn nwyrain yr Almaen bryd hynny, ond yng Ngwlad Pwyl heddiw. Roedd yn efell i Sabine ac yn un o wyth o blant. Er iddo gael ei eni yn Breslau, symudodd y teulu yn fuan i Berlin.

Roedd teulu Bonhoeffer yn ddigon cyfforddus a breintiedig eu byd. Roeddent yn perthyn i'r dosbarth canol uchel hwnnw wnaeth ffynnu yn ystod Gweriniaeth Weimar sef ffurflywodraeth yr Almaen rhwng 1918 a 1933. Fel teulu, roeddent yn addysgedig, diwylliedig a chefnog.⁵ Wedi'r cyfan, Athro mewn Seiciatryddiaeth a Niwroleg oedd ei dad, Dr Karl Bonhoeffer.

Er nad oedd y teulu'n mynychu'r eglwys yn rheolaidd, roedd dylanwadau Cristnogol ar Bonhoeffer o'i ddyddiau cyntaf. Yn un peth, roedd yn dod o linach o ddiwinyddion Cristnogol gyda'i hen daid, Karl Augustus von Hase (1800–90) yn athro mewn diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Jena.⁶ Ond roedd dylanwadau Cristnogol hefyd yn ei gartref. I'w dad, Dr Karl, roedd Cristnogaeth yn rhan o'r 'gwaddol hanesyddol a'r traddodiad deallusol' hwnnw a oedd yn ganolog i'w hunaniaeth Almaenaidd.⁷ Daeth dylanwad Cristnogol hefyd trwy ei fam, Paula. Yn ystod ei phlentyndod, daeth hi i

gysylltiad â'r Morafiaid pietistaidd, grŵp tebyg i'r Methodistiaid efengylaidd yng Nghymru. Nid yw'n syndod mai hi yn bennaf wnaeth ddysgu'r plant i ddarllen y Beibl, i weddio ac i ganu emynau.⁸ Byddai diwinyddiaeth Dietrich yn cyfuno pwyslais ei dad ar werth hanes gyda'r elfen ddefosiynol hon oedd yn nodweddu ffydd ei fam.

Myfyriwr: Von Harnack, Barth a *Sanctorum Communio*

Er i Dr Karl obeithio y byddai ei fab yn dod yn feddyg neu'n gyfreithiwr fel ei frodyr, rhoddodd Dietrich ei fryd ar fod yn weinidog. Felly, ar ôl gorffen ei addysg uwchradd mewn ysgol ramadeg yn Berlin, aeth i Brifysgol Tübingen yn ne-orllewin yr Almaen ym 1923 i astudio diwinyddiaeth. Er i Tübingen rhoi sylfaen gadarn iddo mewn diwinyddiaeth academiaidd, dim ond am flwyddyn y bu yno. Ym 1924, aeth ar daith tri mis i Rufain cyn penderfynu trosglwyddo ei astudiaethau i Brifysgol Berlin.

Mae haneswyr yn gyson yn disgrifio ei daith i Rufain a'i gyfnod fel myfyriwr yn Berlin fel trobwynt yn hanes Bonhoeffer.⁹ Dyma'r cyfnod y dechreuodd ddatblygu un o bwysleisiau mwyaf nodweddiadol ei ddiwinyddiaeth, pwyslais yr ydym yn mynd i'w alw'n Grist a'r Eglwys.

Pan gychwynnodd Bonhoeffer yn Berlin, un o ysgolheigion amlycaf yr adran ddiwinyddiaeth oedd yr hanesydd eglwysig Adolf von Harnack (1851–1930). Roedd Von Harnack yn cynrychioli 'penllanw diwinyddiaeth ryddfrydol' yn yr Almaen.¹⁰ Nid 'rhyddfrydol' mewn ystyr ddadleuol, ond fel cyfeiriad at y traddodiad diwinyddol hwnnw a ddatblygodd yn yr Almaen yn ystod diwedd y ddeunawfed a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac a gysylltir ag enw Friedrich Schleiermacher (1768–1834). Dyma ddiwinyddiaeth a oedd yn pwysleisio rhyddid dyn ac a oedd yn hyderus yn ei allu i bwyso a mesur yr hyn oedd yn hanfodol i'r ffydd Gristnogol.¹¹ Er enghraifft, yn ôl Von Harnack, trwy ddefnyddio rheswm a methodoleg hanesyddol-feirniadol, roedd modd gwahaniaethu rhwng 'cnewyllyn' Cristnogaeth a'r hyn oedd yn 'blisgyn' allanol.¹² Daeth i'r casgliad fod cnewyllyn y ffydd Gristnogol yn cynnwys 'Tadolaeth Duw', hynny yw, fod Duw yn dad cariadus i'w creaduriaid, a 'Brawdoliaeth Dyn', hynny yw bod dynoliaeth yn gymdeithas lle mae gan bawb gyfrifoldeb dros ei gilydd.¹³ Yn

y bôn, neges foesol ac ymarferol oedd craidd y ffydd Gristnogol iddo ac eilaidd oedd dogmâu ac athrawiaethau gan gynnwys y Drindod ac ymgawdoliad Crist.¹⁴

Pan gychwynnodd Bonhoeffer yn Berlin, daeth yn un o ddisgyblion Von Harnack. Yn wir, dewiswyd Bonhoeffer ganddo i fod yn aelod o seminar arbennig ar hanes yr eglwys a gynhaliwyd yn y brifysgol.¹⁵ Fel y gwelir nes ymlaen, gadawodd Von Harnack ei ôl ar Bonhoeffer yn enwedig ar ei bwyslais ar werth cymdeithasol yr eglwys a'r egwyddor fod Cristnogaeth yn ymwneud â'r moesol a'r ymarferol yn ogystal â'r ysbrydol.

Er y dylanwad hwn, nid dim ond llais Von Harnack yr oedd Bonhoeffer yn gwrandio arno yn Berlin ond hefyd llais y diwinydd hwnnw o'r Swistir Karl Barth (1886–1968). Ym 1919 cyhoeddodd Barth *Der Römerbrief* sef ei esboniad ar Lythyr Paul at y Rhufeiniaid gan gyhoeddi ail argraffiad diwygiedig ym 1922. Roedd Bonhoeffer yn gyfarwydd â'r gyfrol hon gan iddo ei hastudio'n fanwl.¹⁶

Yr oedd Barth a Von Harnack yn cynrychioli dau fyd diwinyddol gwahanol. Yn wir, disgrifiwyd esboniad Barth ar Rufeiniaid fel 'taranfoltt ym maes chwarae'r diwinyddion'¹⁷ am fod ei 'neo-uniongrededd' yn herio casgliadau diwinyddiaeth ryddfrydol ei oes. Yn lle cychwyn diwinyddiaeth gyda dynoliaeth a'i allu, cychwynnodd Barth gyda mawredd Duw. Gan fod Duw yn *ganz anders*, hynny yw, yn 'gwbl wahanol' i ni, ofer yw ymdrechion dynol i ddod i'w adnabod.¹⁸ Yn hytrach, er mwyn dod i adnabod Duw, rhaid i'r ddynoliaeth ddibynnu ar hunan-ddatguddiad Duw ohono ef ei hun yn Iesu Grist.¹⁹ I Barth, nid rhywbeth y mae dynoliaeth yn ei ganfod a'i ddirnad yw datguddiad, ond rhywbeth y mae Duw yn ei *wneud* mewn hanes. Mewn geiriau eraill, gweithred Duw a digwyddiad yw datguddiad sy'n seiliedig ar ymgawdoliad Iesu Grist, Gair Duw.²⁰

Cafodd syniadau Barth ddylanwad ar Bonhoeffer. Daw hyn yn amlwg yn y gwaith sylweddol cyntaf a ysgrifennodd sef ei draethawd doethurol o dan y teitl *Sanctorum Communio* a gyfieithir i'r Gymraeg fel 'Cymundeb y Saint'. Cwblhaodd y traethawd hwn ym 1927 a'i gyhoeddi'n gyfrol ym 1930.

Gan adleisio diwinyddiaeth Barth, mae *Sanctorum Communio* yn pwysleisio fod Duw i'w adnabod trwy ei hunan-ddatguddiad ohono'i hun yn Iesu Grist. Er mwyn deall natur Duw, rhaid ei ddeall yn ôl y datguddiad hwn.²¹ Er enghraifft, soniodd Bonhoeffer fod 'realiti eglwys Crist yn cael ei rhoi yn y datguddiad sydd yng Nghrist' a bod pechod yn cael ei 'orchfygu yn y datguddiad sydd yng Nghrist'.²² Mynnodd hefyd fod y 'syniad Cristnogol o Dduw yn cael ei ddeall trwy'r datguddiad sydd yng Nghrist'.²³ Roedd yr un egwyddor hefyd i'w gweld yn ei weithiau cynnar eraill gan gynnwys *Akt und Sein* ('Gweithred a Bod') (1931) a *Schöpfung und Fall* ('Creadigaeth a Chwmp') (1933).

Er hynny, nid dim ond dilyn Barth a wnaeth Bonhoeffer ond gwnaeth rhywbeth creadigol â'i ddiwinyddiaeth. Yn *Sanctorum Communio*, cyfunodd y syniad o ddatguddiad Duw yng Nghrist yn agos at ei ddealltwriaeth o'r eglwys; yn agosach o bosibl nag yr oedd Barth wedi ei wneud.²⁴ Er mwyn deall yr elfen hon o'i ddiwinyddiaeth, rhaid dychwelyd at ei daith i Rufain ym 1924. I Bonhoeffer, roedd y daith hon yn un bwysig oherwydd dyma pryd y daeth i ddeall athrawiaeth yr eglwys am y tro cyntaf.²⁵ Er nad oedd yr eglwys yn rhan ganolog o'i fagwraeth, wrth weld Basilica Sant Pedr ac offeiriaid Rhufain yn addoli Duw, daeth i werthfawrogi'r eglwys fel rhywbeth sylweddol a choncridd; rhywbeth oedd yn bod mewn gwirionedd ac nid syniad haniaethol.

Yn *Sanctorum Communio*, mae Bonhoeffer yn cysylltu'r eglwys yn agos at ddatguddiad Duw yn Iesu Grist. Yn ei dyb ef, yr eglwys yw 'presenoldeb Crist, fel y mae Crist yn bresenoldeb Duw'.²⁶ Hynny yw, mae'r Iesu hanesyddol – yr un sy'n ddatguddiad Duw ohono'i hun trwy ei ymgnewdoliad, ei groesholiad a'i atgyfodiad – yn bresennol yn ei eglwys heddiw. Soniodd hefyd mai'r 'Eglwys yw Crist yn bodoli fel cymuned'.²⁷ Nid syniad na delfryd yw'r eglwys ond cymdeithas real lle mae Iesu'n trigo. Nid yw Cristnogion felly i fyw'r bywyd Cristnogol fel unigolion ond fel cymuned gan fod Duw yn datguddio ei hun i'r byd trwy'r gymdeithas unigryw hon. Roedd Crist a'r Eglwys felly'n nodwedd bwysig o ddiwinyddiaeth Bonhoeffer.

Gweinidog ac ysgolhaig: Efrog Newydd a'r Eglwys Gyffesiadol

Gan fod Bonhoeffer yn credu mai cymuned oedd hanfod yr eglwys Gristnogol, nid yw'n syndod iddo fynd ati i wasanaethu cymunedau eglwysig mewn nifer o gyd-destunau gwahanol ar ôl gorffen ei ddoethuriaeth. Ym 1928, aeth yn gyntaf i wasanaethu'r eglwys Brotestannaidd Almaeneg ei hiaith yn Barcelona. Yn ystod ei weinidogaeth yno, dangosodd mai cymuned yw'r eglwys trwy ymweld yn gyson â chartrefi ei aelodau ynghyd â chychwyn gweinidogaeth arbennig ar gyfer plant a bechgyn ifanc y gymdogaeth.²⁸

Dim ond am oddeutu blwyddyn y bu yng Nghatalwnia gan iddo symud i Efrog Newydd ym 1930. Symudodd yno er mwyn cychwyn ar brosiect ymchwil yn Athrofa Ddiwinyddol Union o dan arweiniad y diwinydd Americanaidd Reinhold Niebuhr (1892–1971). Ond fel y gwnaeth yn Barcelona, aeth Bonhoeffer ati eto i wasanaethu cymuned yr eglwys leol yn Efrog Newydd. Gan ddilyn arweiniad Frank Fisher, dyn o Alabama a oedd yn hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yn Union, aeth i eglwys fedyddiedig yr Abysiniad, eglwys lle'r oedd y rhan fwyaf o'i haelodau yn bobl dduon o ardal Harlem. Wrth arwain dosbarthiadau'r ysgol Sul yn yr eglwys hon, daeth i werthfawrogi pa mor allweddol oedd hi i'r eglwys gyfrannu at y Mudiad Hawliau Sifil yn yr Unol Daleithiau.²⁹

Ar ôl ei gyfnod fel gweinidog yn Barcelona ac ymchwilydd yn Efrog Newydd, dychwelodd Bonhoeffer i'r Almaen fel darlithydd mewn diwinyddiaeth systematig ym Mhrifysgol Fredrick William yn Berlin ym 1931. Yn ôl ei fyfyrwyr, roedd yn glir a rhesymegol ei arddull ac nid oedd yn dangos llawer o emosiwn nac angerdd wrth ddarlithio.³⁰ Er hynny, llwyddodd ei ddosbarthiadau ar 'Natur yr Eglwys', 'Creadigaeth a Phechod' a 'Christoleg' ddenu nifer o fyfyrwyr oherwydd eu heglurder a'u gwreiddioldeb.³¹

Pan ddychwelodd Bonhoeffer i Berlin ym 1931, roedd newidiadau mawr ar droed yng nghymdeithas a gwleidyddiaeth yr Almaen. Ym mis Ionawr 1933, daeth Adolf Hitler yn Ganghellor yr Almaen. Roedd nifer o fyfyrwyr a darlithwyr Prifysgol Berlin bellach yn bleidiol i syniadau'r Blaid Natsïaidd gan gynnwys gwrthsemitiaeth a goruchafiaeth yr hil Aryaidd. Yn wir, pan

gyflwynodd y Natsïaid eu ‘Deddf er Adferiad y Gwasanaeth Sifil Proffesiynol’ ym mis Ebrill 1933, diarddelwyd nifer o fyfyrwyr Iddewig o Brifysgol Berlin.³² Tua’r un cyfnod, yr oedd Hitler hefyd yn ceisio tynhau ei afael ar eglwysîr Almaen er mwyn sicrhau eu bod yn ufudd i egwyddorion Natsïaeth. Er mwyn gwneud hyn, sefydlwyd Eglwys y Reich ym 1933 o dan arweiniad y *Reichsbischof* Ludwig Müller (1883–1945).

Gwelodd Bonhoeffer y datblygiadau hyn fel rhai peryglus. Ym mis Ebrill 1933, traddododd ddarlith i griw o weinidogion lleol ar ‘Yr Eglwys a’r Cwestiwn Iddewig’. Galwodd y ddarlith ar weinidogion yr Almaen i gydnabod pa mor anghyfiawn oedd polisiau gwrthsemitaidd y Natsïaid gan eu hannog i ofalu am y rhai oedd yn dioddef o’u hachos.³³ Yn ogystal â thynnu sylw at sefyllfa’r Iddewon, protestiodd yn erbyn gafael y Natsïaid ar eglwysîr Almaen. Ym mis Awst 1933, ymgasglodd Bonhoeffer a chriw o weinidogion eraill at ei gilydd ym Methel, Westphalia, i ysgrifennu cyffes ffydd i wrthwynebu egwyddorion Eglwys y Reich. Roedd y gyffes hon yn ‘gwrthod yr athrawiaeth ffals o’r wladwriaeth Gristnogol mewn unrhyw ffurf . . . Ni all [y wladwriaeth] gamddefnyddio’r eglwys fel ei sylfaen foesol a chrefyddol.’³⁴

Roedd Cyffes Bethel hefyd yn gysylltiedig ag ymdrechion cynnar i sefydlu Eglwys Gyffesiadol yr Almaen; eglwys oedd yn annibynnol oddi ar y wladwriaeth Natsïaidd ac yn driw i ‘gyffes’ yr efengyl yn hytrach nag i Hitler.³⁵ Er hynny, nid oedd Bonhoeffer yn bresennol yng nghyfarfod sefydlu’r Eglwys Gyffesiadol ym mis Mai 1934 gan iddo ffoi i Loegr. Yn Lloegr y bu rhwng diwedd 1933 a dechrau 1935 yn gwasanaethu fel gweinidog ar ddwy eglwys Almaenaidd yn Llundain. Gyda Bonhoeffer yn Lloegr, gadawyd y gwaith o arwain yr Eglwys Gyffesiadol i weinidog Lwtheraidd arall, Martin Niemöller (1892–1984).

Un arall fu’n gysylltiedig â’r ymdrechion hyn i sefydlu’r Eglwys Gyffesiadol oedd Karl Barth. Yn wir, Barth oedd yn bennaf gyfrifol am ysgrifennu Datganiad Barmen ym 1934, sef dogfen swyddogol gyntaf yr eglwys a ddatganodd mai Gair Duw yn unig yw awdurdod yr eglwys nid unrhyw wladwriaeth ddynol.³⁶ Ers gorffen ei ddoethuriaeth yn Berlin, roedd Bonhoeffer a Barth wedi dod i adnabod ei gilydd fel cyfeillion. Yn

wir, soniodd Bonhoeffer fod Barth fel cyfaill ‘hyd yn oed yn well na’i lyfrau’ gan ei fod yn ‘agored, ac yn barod i wrando ar feirniadaeth.’³⁷ Er hynny, pan glywodd Barth ei fod wedi ffoi i Loegr, roedd yn siomedig gan anfon llythyr ato yn dweud ‘Alamaenwr wyt . . . mae tŷ dy eglwys ar dân . . . rhaid i ti ddychwelyd i dy swydd ar y llong nesaf’.³⁸

Er gwaethaf geiriau llym Barth, roedd cyfnod Bonhoeffer yn Lloegr yn un pwysig. Yn ystod ei flwyddyn a hanner yn Llundain, llwyddodd i wneud nifer o gysylltiadau mewn amrywiol enwadau gan ddod yn ffigwr blaenllaw yn y mudiad ecwmenaidd Ewropeaidd. Un o’r cysylltiadau hyn oedd George Bell (1883–1958), Esgob Caerfuddai (Chichester). Trwy ddod i gysylltiad ag arweinwyr fel Bell, ceisiodd annog y mudiad i gefnogi ymdrechion yr Eglwys Gyffesiadol i wrthwynebu Hitler. Ond er ei ymdrechion, cafodd ei siomi gan y diffyg ymateb gan golli hyder yn awydd a gallu’r mudiad ecwmenaidd i helpu sefyllfa’r rhai oedd yn dioddef yn yr Almaen.³⁹ Fodd bynnag, arhosodd Bell yn gyfaill agos iddo hyd y diwedd.

Finkenwalde: *Nachfolge* a *Gemeinsames Leben*

Ym 1935, penderfynodd Bonhoeffer ddychwelyd i’r Almaen gan mai dim ond ychydig y gallai ei wneud i gynorthwyo gwaith yr Eglwys Gyffesiadol o Loegr. Dychwelodd i wasanaethu fel prifathro mewn coleg diwinyddol cudd yn Finkenwalde yn nwyrain yr Almaen, ond yng Ngwlad Pwyl heddiw. Yno y bu am ddwy flynedd a hanner yn hyfforddi gweinidogion ar gyfer yr Eglwys Gyffesiadol.

Yn Finkenwalde hefyd yr ysgrifennodd un o’i weithiau diwinyddol mwyaf dylanwadol a gyhoeddwyd ym 1937 o dan y teitl *Nachfolge*. Cyfieithir y gair hwn i’r Gymraeg fel y weithred o ddilyn neu o fod yn ddisgybl i rywun. Er nad yw’r teitl Saesneg yn gyfieithiad llythrennol o’r Almaeneg, mae’n grynhoad ardderchog o neges y gyfrol, *The Cost of Discipleship*. Yn y gyfrol hon y daw’r ail nodwedd o ddiwinyddiaeth Bonhoeffer i’r amlwg sef Gras Costus.

Mae’r gyfrol hon yn llai academiaidd ei naws na *Sanctorum Communio* wrth iddo lefaru fel bugail yn fwy nag ysgolhaig. Bwriad Bonhoeffer yn y gyfrol hon oedd dangos i’w gyd-Gristnogion Almaenaidd pa mor beryglus

yw'r egwyddor o 'Ras Rhad'. Diffiniodd y math hwn o ras trwy ddweud mai:

Gras rhad yw gelyn marwol ein Heglwys . . . Y mae gras rhad yn golygu gras ar werth yn y farchnad fel nwyddau'r stondinwr. Teflir atom am bris gostyngol y sacramentau, maddeuant pechodau a chysuron crefydd. Darlunnir gras fel trysorfa ddi-hysbydd yr Eglwys, y mae hi ohoni yn bwrw arnom fendithion â dwylo hael heb ofyn cwestiynau na gosod terfynau. Gras heb bris; gras heb gost! Popeth i'w gael am ddim.⁴⁰

Ond pam fod Bonhoeffer mor awyddus i gondemnio 'Gras Rhad' ym 1937? Yn ddiau, roedd wedi cael digon ar agwedd y Cristnogion Almaenaid hynny oedd yn cymryd gras Duw yn ganiataol yn y 1930au. Er bod y bobl hyn yn haeru eu bod yn Gristnogion, nid oeddent yn barod i gyfri'r gost o ddilyn Iesu. Er iddynt fynnu eu bod yn ddisgyblion i Iesu, nid oeddent yn barod i wynebu erledigaeth er ei fwyn. Yn hytrach na wynebu dioddefaint dros ei achos, roeddent wedi rhoi eu teyrngarwch i Hitler er mwyn aros yn gyfforddus eu byd.

Yn ei dyb ef, nid 'Gras Rhad' yw'r gras y mae Duw yn ei gynnig i'w bobl ond 'Gras Costus'. Dyma ras sy'n galw ar Gristnogion i gario'u croes gan wynebu dioddefaint, erledigaeth a hyd yn oed marwolaeth dros achos Iesu Grist:

Y mae'r fath ras yn *gostus* am ei fod yn galw arnom i ddilyn ac y mae'n ras am ei fod yn galw arnom i ddilyn *Iesu Grist*. Y mae'n *gostus* am ei fod yn costio i ddyn ei fywyd, ac y mae'n ras am ei fod yn rhoi i ddyn yr unig wir fywyd . . . Yn bennaf oll, y mae'n *gostus* am iddo gostio Duw fywyd ei Fab . . . [ac] y mae'n ras am na chyfrifodd Duw ei Fab yn ormod o bris i'w dalu am ein bywyd.⁴¹

Roedd yr un thema hefyd yn bresennol yn yr ail gyfrol a gyhoeddodd pan oedd yn Finkenwalde, sef *Gemeinsames Leben* sy'n golygu yn Gymraeg 'Bywyd gyda'n gilydd'.⁴² Yn y gyfrol hon, pwysleisiodd mai gras costus Duw yw'r hyn sy'n galluogi'r Cristion i fyw'r bywyd Cristnogol yng nghwmni

Cristnogion eraill. Yn ôl Bonhoeffer, braint eithriadol yw cael perthyn i gymuned Gristnogol gan mai ‘gras, a dim oni bai am ras, sy’n caniatáu i ni fyw mewn cymdeithas gyda brodyr Cristnogol.’⁴³ Yr hyn a wnaeth y gyfrol hon oedd cyfuno pwyslais cyntaf Bonhoeffer ar yr eglwys fel gymuned Crist gyda’i ail bwyslais ar natur gostus gras.

Gwrthwynebu’r Natsïaid: Yr *Abwehr* ac *Ethik*

Er bod cyfnod Bonhoeffer yn Finkenwalde yn un cynhyrchol, ni fu yno’n hir. Ym mis Medi 1937, daeth y Gestapo o hyd i’r athrofa gan ei chau ac arestio nifer o’i myfyrwyr. Yn wyneb y digwyddiadau hyn, daeth Bonhoeffer yn fwy gweithredol fyth yn ei ymdrechion i wrthwynebu Hitler a’i gyfundrefn. Ar ôl i Finkenwalde gau, daeth yn aelod o’r *Abwehr*, cangen o fyddin yr Almaen a oedd yn canolbwyntio ar ysbïo a chasglu gwybodaeth. Er bod yr *Abwehr* yn ffurfiol o dan reolaeth y wladwriaeth, roedd ei harweinwyr, gan gynnwys y Llyngesydd William Canaris (1887–1945), yn gwrthwynebu’r Natsïaid.

Daeth i gysylltiad â’r *Abwehr* trwy ei frawd yng nghyfraith, y cyfreithiwr Hans von Dohnanyi (1902–45), a oedd eisoes yn aelod o’r mudiad. Fel ysbïwr i’r *Abwehr*, cymerodd Bonhoeffer ran mewn nifer o gynlluniau i wrthwynebu’r Natsïaid. Un ohonynt oedd ‘Operation 7’ lle cludwyd Iddewon yn ddirgel allan o’r Almaen i’r Swistir er mwyn dianc rhag y gwersylloedd crynhoi.⁴⁴ Fel aelod o’r *Abwehr*, aeth hefyd ar daith i Norwy er mwyn annog arweinwyr Lwtheraidd i ddyfalbarhau yn eu gwrthwynebiad i Hitler.⁴⁵

Yn y cyfnod hwn ar ôl Finkenwalde y cwblhaodd Bonhoeffer ei *fagnum opus* sef *Ethik* a gyfieithir i’r Gymraeg fel ‘Moeseg’. Yn y gyfrol hon a ysgrifennodd rhwng 1940 a 1942, daw’r drydedd nodwedd o’i ddiwinyddiaeth i’r amlwg: Moeseg a’r Byd. Pwyslais y gyfrol hon oedd bod moeseg Gristnogol yn berthnasol nid yn unig i’r eglwys ond i’r byd. Gan fod Duw wedi cymodi’r ‘byd’ ag ef ei hun (1 Corinthiaid 5:19), mynnodd fod moeseg Gristnogol i’w chymhwyso i bob elfen o’r gymdeithas ddynol:

Nid oes unrhyw ran o’r byd, pa mor anobeithiol ac annuwiol bynnag y bo, nad yw’n cael ei dderbyn gan Dduw a’i chymodi

â Duw yn Iesu Grist. Y sawl a rydd ei sylw i gorff Crist mewn ffydd, ni all fyth mwy lefaru am y byd . . . fel pe bai wedi'i wahanu oddi wrth Grist . . .⁴⁶

Rydym eisoes wedi tynnu sylw at bwyslais Bonhoeffer ar yr eglwys; pwyslais arall yn ei ddiwinyddiaeth oedd y byd. Yn *Ethik*, awgrymodd fod y byd a'r gymdeithas ddynol yn cynnwys pedair elfen: llafur neu waith, priodas, llywodraeth a'r eglwys.⁴⁷ Yn ei dyb ef, roedd gan y Cristion gyfrifoldeb i gymhwyso moeseg yr efengyl i'r pedair elfen hyn fel ei gilydd, hyd yn oed pan oedd hynny'n anodd ac yn gostus. Nid yw'n syndod felly iddo ymuno â'r *Abwehr* er mwyn gwrthwynebu'r Natsïaid am iddynt danseilio'r foeseg hon.

Ei ferthyrddod: Tegel, Flossenbürg a 'Christnogaeth Ddigrefydd'

Ym mis Ebrill 1943, arestiwyd Bonhoeffer am ei wrthwynebiad i'r Natsïaid a'i ymwneud â'r *Abwehr*. Er ei fod newydd ddyweddïo â merch o'r enw Maria, ni chawsant fyth briodi gan iddo dreulio dwy flynedd olaf ei fywyd fel carcharor.⁴⁸ O'i gell yng ngharchar Tegel yng ngogledd Berlin, ysgrifennodd nifer o lythyrau at ei gyfaill Eberhard Bethge (1909–2000), un a fu'n fyfyrwr iddo yn Finkenwalde. Ynddynt, soniodd ei fod wedi'i ddadrithio â'r hyn yr oedd yn ei alw'n 'grefydd'. Er enghraifft, mewn llythyr at Bethge ym mis Ebrill 1944 gofynnodd Bonhoeffer:

Beth yw Cristnogaeth, ac yn wir beth yw Crist i ni heddiw? . . .
Sut y gall Crist ddod yn Arglwydd hyd yn oed y rhai nad oes crefydd ganddynt? Os nad yw crefydd yn ddim ond gwisg Cristnogaeth – a bu i'r wisg honno agweddau gwahanol iawn ar wahanol gyfnodau – yna beth yw Cristnogaeth ddigrefydd? . . . Beth yw arwyddocâd Eglwys (eglwys, plwyf, pregethu, bywyd Cristnogol) mewn byd digrefydd? Pa fodd y llefarwn am Dduw heb grefydd?⁴⁹

Yn y llythyrau hyn, cyflwynodd Bonhoeffer y bedwaredd nodwedd o'i ddiwinyddiaeth ac o bosibl y nodwedd fwyaf dadleuol sef

Cristnogaeth Ddigrifydd. Beth yr oedd yn ei olygu wrth sôn wrth Bethge am hyn? Er mwyn deall beth yr oedd yn ei olygu wrth ‘Cristnogaeth Ddigrifydd’, rhaid dirnad yr hyn yr oedd ‘crefydd’ yn ei gynrychioli iddo yn ystod ei ddyddiau olaf yng ngharchardai'r Trydydd Reich. I Bonhoeffer, roedd ‘crefydd’ yn cynrychioli'r sefydliad eglwysig hwnnw oedd wedi cyfaddawdu â'r Natsïaid. ‘Gwisg’ yn unig oedd y grefydd hon; rhywbeth arwynebol ac allanol. Dyma'r ‘crefydd’ a arhosodd yn ddistaw wrth i Hitler ddod i rym ac wrth i'r Iddewon gael eu hanfon i'r gwersylloedd crynhoi. Nid oedd y ‘wisg’ hon wedi gwasanaethu Cristnogaeth ond yn hytrach ei thanseilio. Nid oedd felly unrhyw le iddi yn y byd modern.⁵⁰

Yn ei dyb ef, nid angen yr eglwys yn y 1940au oedd bod yn fwy ‘crefyddol’ ond bod yn fwy ‘bydol’.⁵¹ Nid bydol yn yr ystyr o fod yn gnawdol a phechadurus, ond yn yr ystyr fod yn rhaid i'r eglwys fod yn bresennol yn y byd. Wedi'r cyfan, i'r byd y daeth Iesu i ddioddef gyda dynoliaeth ac felly mae gwir Gristnogaeth yn perthyn i'r byd nid i ‘crefydd’.⁵²

Ychydig fisoedd ar ôl iddo ysgrifennu'r geiriau amrwd hyn at Bethge, cludwyd Bonhoeffer i garchar y Gestapo yn Berlin cyn ei drosglwyddo'n ddiweddarach i wersyll crynhoi Flossenbürg. Yno yn Flossenbürg ar 9 Ebrill 1945, bythefnos cyn i'r milwyr Americanaidd ryddhau carcharorion y gwersyll, fe'i dienyddiwyd gan ddod yn un o ferthyron Cristnogol amlycaf yr ugeinfed ganrif.

Casgliad

Er gwaetha'r cyhoeddusrwydd a gafodd Bonhoeffer trwy ffilm Todd Komarnicki, nid yw'r disgrifiad ohono fel *Pastor. Spy. Assassin* yn gwneud cyfiawnder â'r dyn. Er iddo wasanaethu fel ysbïwr i'r *Abwehr*, ei gyfraniad pennaf oedd fel awdur a diwinydd Cristnogol. Trwy ei bwyslais ar Grist a'r Eglwys, Gras Costus, Moeseg a'r Byd a'r egwyddor honno o ‘Gristnogaeth Ddigrifydd’, cynigiodd Bonhoeffer ymateb diwinyddol unigryw i heriau ei gyd-destun hanesyddol.

Er bod Bonhoeffer yn ymateb yn benodol i sefyllfa'r Almaen yn y 1930au a'r 1940au, dichon y gellir cymhwyso prif nodweddion ei ddiwinyddiaeth i'n hoes ni heddiw. Yn wir, mae'r syniad mai cymuned Crist yw'r eglwys yn

herio'r unigolyddiaeth hwnnw a ddaeth yn agwedd mor gyffredin ar ein cymdeithas wedi i Covid-19 ein hynysu oddi wrth ein gilydd. Yn yr un modd, mae'r egwyddor o Ras Costus yn pwysleisio fod dilyn Iesu yn gostus ac yn anodd ym mhob oes. Mae hon yn egwyddor bwysig i'w chofio wrth i gymdeithas Cymru ymbellhau oddi wrth y dylanwadau Cristnogol sydd wedi'i siapio ers canrifoedd. Yn y fath gymdeithas, mae'n anochel y bydd yn rhaid dioddef er mwyn bod yn ddisgybl ffyddlon i Iesu Grist. Er hynny, mae ei bwyslais ar Foeseg a'r Byd yn ein hannog i beidio â bod yn fewnblyg yn y gymdeithas hon ond yn hytrach i ymwneud â'r byd sydd o'n cwmmpas gan fod moeseg yr efengyl yn berthnasol i bob elfen o'n cymdeithas. Wrth wneud hyn, ni ddylwn roi ein hyder mewn sefydliadau na thraddodiadau crefyddol, ond yn hytrach yn Iesu Grist ei hun a'r Gristnogaeth y mae Duw wedi ei datguddio i ni trwyddo ef. Mae beirniadaeth Bonhoeffer o grefydd a'i syniad o 'Gristnogaeth Ddigrefydd' yn ein hatgoffa o'r egwyddor hon.

Felly, er i Bonhoeffer farw yng ngwersyll crynhoi Flossenbürg ym 1945 80 o flynyddoedd yn ôl, mae ei lais unigryw yn parhau i lefaru heddiw trwy ei weithiau diwinyddol. Ynddynt, mae'n cynnig gair o gysur yn ogystal â her sydd yr un mor berthnasol i eglwysi Cymru heddiw ag yr oeddent i eglwysi'r Almaen ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

Troednodiadau

- ¹ Myles Werntz, 'Bonhoeffer' Bears Little Resemblance to Reality', *Christianity Today*, Tachwedd 20, 2024
<https://www.christianitytoday.com/2024/11/bonhoeffer-movie-review-angel-studios/>.
- ² Gweler Victoria J. Barnett, 'Bonhoeffer and the Conspiracy', yn *The Oxford Handbook of Dietrich Bonhoeffer*, goln. Philip G. Ziegler a Michael Mawson (Oxford: Oxford University Press, 2019), 65–76.
- ³ Catherine Bray, 'Bonhoeffer Review – Solid Biopic of German Pacifist Pastor Murdered by the Nazis', *The Guardian*, Mawrth 3, 2025,
<https://www.theguardian.com/film/2025/mar/03/bonhoeffer-review-solid-biopic-of-german-pacifist-pastor-murdered-by-the-nazis>.
- ⁴ Eberhard Bethge, *Dietrich Bonhoeffer: Theologe. Christ. Zeitgenosse* (Munich: Chr. Kaiser, 1967). Cyfieithwyd i'r Saesneg fel *Dietrich Bonhoeffer: Theologian, Christian, Contemporary* (London: Collins, 1970).
- ⁵ F. Burton Nelson, 'The Life of Dietrich Bonhoeffer', yn *The Cambridge Companion to Dietrich Bonhoeffer*, gol. John W. De Gruchy (Cambridge: Cambridge University Press, 1999), 22–23.
- ⁶ Nelson, 'The Life of Dietrich Bonhoeffer', 23.
- ⁷ Bethge, *Dietrich Bonhoeffer*, 4. Cyfieithiad yn Nelson, 'The Life of Dietrich Bonhoeffer', 23.
- ⁸ Nelson, 'The Life of Dietrich Bonhoeffer', 24.
- ⁹ Martin Rumscheidt, 'The Formation of Bonhoeffer's Theology', yn *The Cambridge Companion to Dietrich Bonhoeffer*, gol. John W. De Gruchy (Cambridge: Cambridge University Press, 1999), 58.
- ¹⁰ Martin Rumscheidt, gol., *Adolf von Harnack: Liberal Theology at Its Height* (London: Collins, 1989).
- ¹¹ Rumscheidt, 'The Formation of Bonhoeffer's Theology', 54.
- ¹² Adolf von Harnack, *What is Christianity?*, cyf. Thomas Bailey Saunders (London: Williams and Norgate, 1901), 12.

- ¹³ Von Harnack, *What is Christianity?*, 65, 168–169.
- ¹⁴ Von Harnack, *What is Christianity?*, 230–234.
- ¹⁵ Rumscheidt, ‘The Formation of Bonhoeffer’s Theology’, 54.
- ¹⁶ Peter Frick, ‘Bonhoeffer the Academic Theologian’, yn *The Oxford Handbook of Dietrich Bonhoeffer*, goln. Philip G. Ziegler a Michael Mawson (Oxford: Oxford University Press, 2019), 43.
- ¹⁷ Karl Adam, ‘Die Theologie Der Krisis’, *Hochland* 23 (Mehefin 1926): 276–277.
- ¹⁸ Karl Barth, *The Epistle to the Romans*, cyf. Edwyn C. Hoskyns (London: Humphrey Milford, 1957), 42.
- ¹⁹ Barth, *Epistle to the Romans*, 95.
- ²⁰ Kenneth Oakes, ‘Revelation and Scripture’, yn *The Oxford Handbook of Karl Barth*, goln. Paul Dafydd Jones a Paul T. Nimmo (Oxford: Oxford University Press, 2019), 249.
- ²¹ Harri Williams, *Y Meddwl Modern: Bonhoeffer* (Dinbych: Gwasg Gee, 1981), 71.
- ²² Dietrich Bonhoeffer, *The Communion of Saints*, cyf. R. Gregor Smith (New York, NY: Harper & Row, 1963), 20, 38. Fy nghyfieithiad oni nodir yn wahanol.
- ²³ Bonhoeffer, *Communion of Saints*, 40.
- ²⁴ Williams, *Bonhoeffer*, 71.
- ²⁵ Nelson, ‘The Life of Dietrich Bonhoeffer’, 27–28.
- ²⁶ Bonhoeffer, *Communion of Saints*, 101. Cyfieithiad yn Williams, *Bonhoeffer*, 71.
- ²⁷ Bonhoeffer, *Communion of Saints*, 146. Cyfieithiad yn Williams, *Bonhoeffer*, 75.
- ²⁸ Nelson, ‘The Life of Dietrich Bonhoeffer’, 30–31.
- ²⁹ Nelson, ‘The Life of Dietrich Bonhoeffer’, 29.
- ³⁰ Wolf-Dieter Zimmerman, ‘Years in Berlin’, in *I Knew Dietrich Bonhoeffer: Reminiscences by His Friends*, goln. Wolf-Dieter Zimmerman a R. Gregor Smith (London: Collins, 1973), 62.

- ³¹ Frick, 'Bonhoeffer the Academic Theologian', 39–51.
- ³² 'The Removal of Unwanted Students', Humboldt-Universität zu Berlin, cyrchwyd Gorffennaf 15, 2026, <https://www.hu-berlin.de/en/university/history/jewish-students-1933-1938/the-removal-of-unwanted-students>.
- ³³ Dietrich Bonhoeffer, *No Rusty Swords: Letters, Lectures and Notes, 1928–1936, From the Collected Works of Dietrich Bonhoeffer*, cyf. 1 (London: Collins, 1965), 221–229.
- ³⁴ Dietrich Bonhoeffer, *Dietrich Bonhoeffer Works*, cyf. 12: *Berlin: 1932–1933*, gol. Larry L. Rasmussen, cyf. Isabel Best, Isabel Higgins a Douglas W. Scott (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2009), 415–416.
- ³⁵ Nelson, 'The Life of Dietrich Bonhoeffer', 32.
- ³⁶ John H. Leith, *Creeds of the Churches: A Reader in Christian Doctrine from the Bible to the Present* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 1982), 520.
- ³⁷ Clifford Green, gol., *Karl Barth: Theologian of Freedom* (London: Collins, 1989), 12–13.
- ³⁸ Bonhoeffer, *No Rusty Swords*, cyf. 1, 239.
- ³⁹ Nelson, 'The Life of Dietrich Bonhoeffer', 34.
- ⁴⁰ Dietrich Bonhoeffer, *The Cost of Discipleship* (New York, NY: MacMillan, 1963), 45. Cyfieithiad yn Williams, *Bonhoeffer*, 79.
- ⁴¹ Bonhoeffer, *The Cost of Discipleship*, 47–48. Cyfieithiad yn Williams, *Bonhoeffer*, 80.
- ⁴² Williams, *Bonhoeffer*, 83.
- ⁴³ Dietrich Bonhoeffer, *Life Together*, cyf. John W. Doberstein (London: SCM Press, 1965), 10.
- ⁴⁴ Nelson, 'The Life of Dietrich Bonhoeffer', 35.
- ⁴⁵ Nelson, 'The Life of Dietrich Bonhoeffer', 40.
- ⁴⁶ Dietrich Bonhoeffer, *Ethics*, gol. Eberhard Bethge, cyf. Neville Horton Smith (New York, NY: MacMillan, 1965), 205. Cyfieithiad yn Williams, *Bonhoeffer*, 90.

- ⁴⁷ Bonhoeffer, *Ethics*, 207–213.
- ⁴⁸ Nelson, ‘The Life of Dietrich Bonhoeffer’, 43.
- ⁴⁹ Dietrich Bonhoeffer at Eberhard Bethge, Ebrill 30, 1944, yn Dietrich Bonhoeffer, *Letters and Papers from Prison*, gol. Eberhard Bethge (London: The Folio Society, 1971), 247. Cyfieithiad yn Williams, *Bonhoeffer*, 98–99.
- ⁵⁰ Williams, *Bonhoeffer*, 102.
- ⁵¹ Barry Harvey, *Taking Hold of the Real: Dietrich Bonhoeffer and the Profound Worldliness of Christianity* (Eugene, OR: Wipf & Stock, 2015), 34.
- ⁵² Williams, *Bonhoeffer*, 104.